Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

# Ariannu Cyrff y Sector Gwirfoddol yng Nghymru

Mai 2008

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: www.assemblywales.org

I gael rahgor o gopiau called o'r ddogfen hon cystlltwch â:

Annette Millett
Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8429
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: pwyllgor.cymunedau@wales.gsi.gov.uk

# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant



Janice Gregory
Cadeirydd
Ogwr



Peter Black
Gorllewin De Cymru



Paul Davies
Preseli Sir Benfro



Nerys Evans
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Lesley Griffiths
Wrecsam



Mark Isherwood
Gogledd Cymru



Dai Lloyd
Gorllewin De Cymru



Lynne Neagle
Tor-faen



Joyce Watson
Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Cynnwys


| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| | Rhagair y Cadeirydd | 1 |
| | | |
| 1 | Cyflwyniad | 2 |
| | | |
| 2 | Cylch gorchwyl | 2 |
| | | |
| 3 | Cefndir | 3 |
| | | |
| 4 | Y fframwaith deddfwriaethol | 6 |
| | | |
| 5 | Tystiolaeth | 8 |
| | | |
| 6 | Materion allweddol | 10 |
| | | |
| 7 | Argymhellion | 36 |
| | | |
| Atodiad 1 | Cyrff ac unigolion a roddodd dystiolaeth yn bersonol i'r Pwyllgor | 40 |
| | | |
| Atodiad 2 | Rhestr o bapurau'r Pwyllgor | 43 |
| | | |
| Atodiad 3 | Cyrff a ymatebodd i'r cais am dystiolaeth ysgrifenedig | 45 |

## Rhagair y Cadeirydd

Dyma'r ymchwiliad craffu cyntaf i'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ei gwblhau. Rydym wedi cael tystiolaeth gan groestoriad o'r 30,000 o gyrff yn y trydydd sector yng Nghymru; a hefyd gan Lywodraeth y Cynulliad, llywodraeth leol, cyrff ymbarél amrywiol, y rheini sy'n gyfrifol am ddyrannu arian y Loteri Genedlaethol, a'r rheini sy'n gweithredu fel asiantau ar ran Llywodraeth y Cynulliad - gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru.

Mae'r trydydd sector yn cynnwys mudiadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol, grwpiau hunangymorth, cwmnïau a mentrau cymunedol cydweithredol, grwpiau crefyddol a chyrff dielw. Dymuniad i helpu pobl eraill a chymunedau lleol drwy roi o'u hamser, eu profiad a'u harbenigedd, sy'n uno gwirfoddolwyr y trydydd sector. Mae brwdfrydedd ac ymroddiad y rheini yr ydym wedi'u cyfarfod yn ystod yr ymchwiliad hwn wedi cael cryn argraff arnom.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y cymorth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff ariannu eraill yn ei roi ar hyn o bryd i'r trydydd sector. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf gwelwyd cynnydd sylweddolodd yn yr arian y mae'r trydydd sector yn ei gael gan Lywodraeth y Cynulliad; o £79 miliwn yn 2002-03 i £174 miliwn yn 2006-07.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynllun gweithredu strategol yn ddiweddar a oedd yn gosod allan ei gweledigaeth i'r trydydd sector ei rhoi ar waith yn ystod y pedair blynedd diwethaf, yn gyfnewid am y buddsoddiad sylweddol hwn. Wrth gynnal yr ymchwiliad hwn, nid oes unrhyw fwriad gennym i ddyblygu neu ddisodli'r cynllun gweithredu hwn, ond yn hytrach rydym am amlygu'r meysydd allweddol yr ydym yn teimlo y dylid rhoi sylw penodol iddynt.

Nid yw'r Pwyllgor yn gofyn am arian ychwanegol, ar wahân i'r hyn a gynigir gan y 'cynllun cyfrifon segur' sydd i'w sefydlu yn y Deyrnas Unedig. Ond rydym yn teimlo bod cyfleoedd i helpu cyrff y trydydd sector i wneud gwell defnydd o'u hamser a'u hegni drwy, er enghraifft, ei gwneud hi'n haws cael gwybodaeth am gyllid a lleihau'r biwrocratiaeth sydd ynghlwm wrth y broses o gyflwyno ceisiadau am arian.

Rwy'n ddiolchgar iawn i bob unigolyn ac i bob corff a fu'n fodlon rhoi o'u hamser i gynnig eu harbenigedd a'u cyngor; naill ai mewn cyfarfodydd pwyllgor neu drwy ymateb i'n cais am dystiolaeth. Gobeithio y bydd ein hadroddiad yn ei gwneud yn haws i'r holl grwpiau yn y trydydd sector dderbyn arian gan y byddai hynny, yn ei dro, o fudd i unigolion a'u cymunedau lleol.

Rwy'n rhagweld y bydd ein hadroddiad yn cael ei ddarllen gan lawer yn y trydydd sector a gobeithio y bydd ein hargymhellion yn cael eu derbyn gan Lywodraeth y Cynulliad. Edrychaf ymlaen at gael eu hymateb maes o law.



**Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant**

## 1. Cyflwyniad

Dyma ymchwiliad cyntaf y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant. Dewiswyd y pwnc hwn gan fod y sector gwirfoddol (neu'r trydydd sector) yn effeithio ar bawb yng Nghymru, naill ai fel gwirfoddolwyr neu fel pobl sy'n derbyn gwasanaethau.

Mae gan y trydydd sector ran hanfodol mewn cymdeithas ddinesig; nid yn unig o ran amrywiaeth y gwasanaethau a gyflwynir ond hefyd o ran rhoi cyfle i bobl roi o'u hamser, eu harbenigedd a'u cyngor er lles eraill a chyfoethogi bywyd y gymuned. Mae brwdfrydedd ac ymroddiad y rheini yr ydym wedi'u cyfarfod yn ystod yr ymchwiliad hwn wedi cael cryn argraff arnom.

Dechreuodd yr ymchwiliad hwn ym mis Hydref 2007 pan gyflwynodd **Dr Brian Gibbons AC**, Aelod y Cynulliad dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol bapur yn gosod allan strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer rhoi cymorth i'r sector gwirfoddol. Daeth y broses o gasglu tystiolaeth i ben ym mis Ebrill 2008.

Rydym yn cydnabod y gwaith gwerthfawr a wnaeth y Llywodraeth y Cynulliad o ran ariannu'r trydydd sector hwn yng Nghymru, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Rydym yn cymeradwyo cynllun gweithredu strategol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y trydydd sector. Wrth gynnal yr ymchwiliad hwn nid oes unrhyw fwriad gennym i ddyblygu neu ddisodli'r cynllun gweithredu hwn, ond yn hytrach rydym am amlygu'r meysydd allweddol yr ydym yn teimlo y dylid rhoi sylw penodol iddynt.

Rydym yn ddiolchgar i bob unigolyn ac i bob corff a fu'n fodlon rhoi o'u hamser i gynnig eu harbenigedd a'u cyngor; naill ai mewn cyfarfodydd pwyllgor neu drwy ymateb i'n cais am dystiolaeth ysgrifenedig.

## 2. Cylch Gorchwyl

Cynnal ymchwiliad craffu i ddull strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru o ariannu cyrff y sector gwirfoddol yng Nghymru.

Bydd y Pwyllgor yn:

- Archwilio polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran ariannu cyrff gwirfoddol;
- Archwilio'r cyfarwyddiadau polisi a roddwyd i'r cyrff ariannu perthnasol;
- Archwilio'r drefn ar gyfer monitro'r hyn a wna cyrff gwirfoddol â'r cyllid a gânt ;
- Archwilio 'cyllidebu ar sail rhyw' mewn perthynas â'r cyllid hwn;

- Archwilio pa mor hawdd neu pa mor anodd yw hi i’r cyrff perthnasol gael cyllid;

- Cyflwyno adroddiad i’r Gweinidog perthnasol, ynghyd ag argymhellion.

## 3. Cefndir

### Trosolwg

Mae dros 30,000 o gyrff yn y trydydd sector yng Nghymru. Mae’r rhain yn cynnwys mudiadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, grwpiau hunangymorth, cwmnïau a mentrau cymunedol cydweithredol, grwpiau crefyddol a chyrff di-elw.

Caiff y grwpiau eu dosbarthu yng nghronfa ddata Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yn ôl eu prif weithgareddau ac yn ôl yr ardal y maent yn gweithredu ynddi (cenedlaethol, rhanbarthol neu leol). Grwpiau lleol yw’r rhan fwyaf o gyrff y trydydd sector (87%) ac maent yn gweithio o fewn ardal awdurdod lleol neu’n fwy lleol na hynny.

Mae dros 1.5 miliwn o oedolion yn gweithio’n wirfoddol yng Nghymru a’r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio gyda chyrff gwirfoddol. Mae hyn yn cyfateb i 62% o oedolion y wlad. Ar gyfartaledd, bydd pob gwirfoddolwr yn gweithio 9 awr y mis; sy’n cyfateb i thua 90,000 o weithwyr llawn amser.

Mae’r trydydd sector yn cyflogi tua 46,400 o bobl; o’r rhain mae 24,100 yn llawn amser ac mae’r gweddill yn rhan amser. Yn ogystal â hyn, mae tua 53,000 o ymddiriedolwyr neu aelodau o grwpiau rheoli ynghlwm wrth y sector.

Yn 2007, yn ôl arolwg ariannu CGGC, cyfanswm incwm y trydydd sector oedd tua £1.2 biliwn. Mae incwm blynyddol 65% o gyrff gwirfoddol yng Nghymru yn llai na £10,000 a llai na 2% sy’n cael incwm o dros £1 miliwn.


Yn hanesyddol, cyfraniadau ariannol gan y cyhoedd oedd prif ffynhonnell incwm y trydydd sector. Ond erbyn 2005, roedd hyn wedi newid, a’r sector cyhoeddus oedd prif ffynhonnell eu hincwm – sef 43% o’u hincwm cyfan, gan gynnwys arian gan yr Undeb Ewropeaidd.

Mae arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynyddu’n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf o £79 miliwn yn 2002-03 i £174 miliwn yn 2006-07.

Ffigyrau yn **Adroddiad Blynyddol 2006-07** Cynllun y Sector Gwirfoddol**:**

| **Corff Ariannu** | **£miliwn** |
|---|---:|
| Llywodraeth Cynulliad Cymru | 173.9 |
| Byrddau Iechyd Lleol | 13.4 |
| Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad | 14.0 |
| **Cyfanswm** | **201.3** |

## Incwm y Trydydd Sector




Ffynhonnell: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

### Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi cymorth ariannol uniongyrchol i'r trydydd sector, fel y nodir isod.

**Cynnal seilwaith cyffredinol y sector gwirfoddol:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi llofnodi cytundeb partneriaeth pum mlynedd gyda CGGC. Bydd y cytundeb yn rhoi arian craidd i'r CGGC yn ardal pob awdurdod lleol, ac i'r rhwydwaith o ganolfannau gwirfoddolwyr ar hyd a lled Cymru, sef yr hen Fiwros Gwirfoddol.

Yn ogystal â'r cytundeb partneriaeth, caiff elfennau eraill yn y seilwaith eu cynnal â chyllid gan y Gronfa Meithrin Gallu Partneriaeth ac arian craidd ar gyfer y Sefydliad Codi Arian. Yn ystod 2007-08 dyrannwyd cyfanswm o £5.2 miliwn i'r seilwaith.

**Cymorth i wirfoddolwyr:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cynnig amrywiaeth o gynlluniau grant i ariannu prosiectau, yn bennaf i ehangu nifer ac amrywiaeth y cyfleoedd i wirfoddoli. Maent hefyd yn ceisio goresgyn y rhwystrau sy'n atal pobl rhag gwirfoddol. Mae'r cynlluniau grant yn ychwanegol at yr arian craidd sydd ar gael o dan y cytundeb partneriaeth. Dyma'r cynlluniau sydd ar gael: Gwirfoddoli yng Nghymru, Cymru: Cymdeithas Fyw, Gwirfoddolwyr y Mileniwm a Menter Gwirfoddolwyr Ifanc

Comisiwn Russell. Gwerth blynyddol yr arian hwn, at ei gilydd, yw tua £3 miliwn ar hyn o bryd. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad yn talu'r gost o wirio cefndir gwirfoddolwyr yng Nghymru drwy'r Swyddfa Cofnodion Troseddol. £373,000 oedd cost y gwasanaeth hwn yn 2007-08

**Cymorth i ddatblygu cymunedau:** Prif ffocws y cymorth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei roi i ddatblygu cymunedau yw'r fenter 'Cymunedau'n Gyntaf', a fydd, gyda hyn, yn symud ymlaen i'r cam nesaf o dan faner 'Cymunedau Nesaf'. Mae gan y trydydd sector ran bwysig yn y gwaith o weithredu'r rhaglen yn lleol; fel aelodau o Bartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf a hefyd fel cyrff sy'n derbyn grantiau gan Cymunedau'n Gyntaf.

Y tu allan i ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi arian craidd i fenter Datblygu Cymunedol Cymru, i roi cyngor arbenigol i grwpiau ar hyd a lled Cymru ac i ddatblygu eu 'fframwaith strategol ar gyfer datblygu cymunedol'. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn gweithredu Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol ac yn rhoi arian i Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo a mudiad Groundwork.

**Cymorth i fentrau cymdeithasol:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo menter gymdeithasol fel model effeithiol ar gyfer amrywiaeth eang o wasanaethau; er enghraifft, ailgylchu, gofal plant, cludiant cymunedol, mesurau atal trosedd etc.

**Cynlluniau grant penodol ar gyfer y trydydd sector:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu amrywiaeth o gynlluniau grant sydd wedi'u hanelu'n benodol at y trydydd sector. Cewch fanylion llawn y cynlluniau hyn yn atodiad 3 i'r papur a gyflwynodd y Gweinidog i'r Pwyllgor

Sefydlodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Gomisiwn Annibynnol i adolygu Cynllun y Sector Gwirfoddol ym mis Hydref 2003, ac un argymhelliad oedd y dylid paratoi Cynllun Gweithredu Strategol. Cyhoeddwyd Papur Ymgynghori yng nghyswllt y Cynllun Gweithredu Strategol ym mis Ionawr 2007.

Trafodwyd y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Cynllun y Sector Gwirfoddol ac Adroddiad Strategol 2006-07 am Gynllun y Sector Gwirfoddol yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad Cenedlaethol ar 13 Tachwedd 2007. Mae'r Cynllun Gweithredu Strategol yn nodi tri phrif faes i ddylanwadu arnynt yn y sector gwirfoddol:

- Adeiladu cymunedau cryfach;
- Darparu gwasanaethau cyhoeddus gwell; a
- Datblygu polisïau gwell.

## 4. Y fframwaith deddfwriaethol

Rhoddodd Adran 114 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ddyletswydd statudol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i sefydlu “cynllun y sector gwirfoddol” yn gosod allan sut y mae’n bwriadu hyrwyddo buddiannau cyrff gwirfoddol yng Nghymru. At ddibenion adran 114 corff gwirfoddol yw corff nad yw’n awdurdod lleol, sy’n ymgymryd â gweithgareddau er budd Cymru yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol. Rhaid i’r cynllun nodi sut y mae’n bwriadu ariannu’r cyrff gwirfoddol hyn. Cyhoeddwyd “cynllun y sector gwirfoddol” ar 31 Awst 2000.

http://cymru.gov.uk/topics/housingandcommunity/voluntarysector/publications/volsectorscheme?lang=en

Mae adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn awr wedi disodli Adran 114 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn ôl y ddarpariaeth hon, cyfrifoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru yn unig yw adolygu ac adnewyddu “cynllun y sector gwirfoddol”. Mae’r trefniadau rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a’r sector gwirfoddol yn cael eu trafod ar hyn o bryd.

O dan adran 74(9) o Ddeddf 2006, rhaid i Lywodraeth y Cynulliad gyhoeddi adroddiad ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol yn egluro sut y cafodd cynigion y cynllun eu rhoi ar waith. Cafodd y seithfed adroddiad blynyddol, ar gyfer y flwyddyn 2006-07, ei gyhoeddi’n ddiweddar.

http://cymru.gov.uk/topics/housingandcommunity/voluntarysector/publications/annualreport0607/?lang=en

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi cyhoeddi dogfen yn ddiweddar yn dwyn y teitl ‘Y Trydydd Dimensiwn’ sy’n gosod allan ei chynllun strategol ar gyfer y sector gwirfoddol o 2008 i 2011.

http://cymru.gov.uk/topics/housingandcommunity/voluntarysector/publications/thethirddimension/?lang=en

Gall awdurdodau lleol yng Nghymru hefyd roi arian i gyrff gwirfoddol a fydd, yn eu barn nhw, yn gweithredu er budd eu hardaloedd. Yr awdurdod statudol ar gyfer dyrannu’r arian hwn yw adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a’r ‘pwerau lles’ sydd wedi’u cynnwys yn adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Bydd y pŵer i ddyrannu’r arian hwn yn dibynnu ar amgylchiadau bob achos unigol. Cafodd adroddiad ar y cyd rhwng gwahanol gyrff cyhoeddus yng Nghymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn dwyn y teitl ‘Er lles pawb: cymorth llywodraeth leol i’r sector gwirfoddol yng Nghymru,’ ei gyhoeddi ym mis Awst 2005.

http://www.lgdu-wales.gov.uk/Documents/Project/VoluntarySector/LGD07010_For_Mutual_Benefit_Eng.pdf

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cyngor Chwaraeon Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru hefyd yn rhoi cymorth ariannol i'r sector gwirfoddol. Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ariannu'r cyrff hyn. Sefydlwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg o ganlyniad i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac mae adran 3 o'r Ddeddf honno'n rhoi pŵer i'r bwrdd ddyrannu grantiau'n gysylltiedig â'i swyddogaethau. Sefydlwyd Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru drwy ddwy Siarter Frenhinol, sy'n rhoi sail gyfreithiol iddynt ddyrannu grantiau sy'n hybu eu swyddogaethau. Mae copi o'r ddwy Siarter i'w gweld ar wefan y cyrff perthnasol.

http://www.artswales.org.uk/default.asp

http://www.cyngor-chwaraeon-cymru.org.uk/

## 5. Tystiolaeth

### Cyfarfodydd Pwyllgor

Cyflwynwyd tystiolaeth lafar mewn 9 o gyfarfodydd pwyllgor. Mae rhestr o'r cyrff a'r unigolion a roddodd dystiolaeth yn bersonol i'r Pwyllgor yn Atodiad 1. Mae rhestr o'r papurau a'r trawsgrifiadau yn Atodiad 2.

**10 Hydref 2007**

- Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
- Y Dirprwy Weinidog dros Adfywio
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

**24 Hydref 2007**

- Merched y Wawr
- Clybiau i Bobl Ifanc Cymru
- Age Concern Cymru

**7 Tachwedd 2007**

- Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru

**14 Tachwedd 2007**

- Y Gweinidog dros Treftadaeth

**21 Tachwedd 2007**

- Cyngor ar Bopeth
- Cymorth Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**12 Rhagfyr 2007**

- Cyngor Undebau Llafur Cymru
- Cronfa Dreftadaeth y Loteri
- Y Gronfa Loteri Fawr

**23 Ionawr 2008**

- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent
- Menter Gymunedol Cymru

**6 Chwefror 2008**

- Stonewall Cymru
- Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon Cymru
- Sefydliad Codi Arian Cymru

**14 Ebrill 2008**

- Sefydliad Cymunedol Cymru

## Galw am dystiolaeth

Gofynnodd y Pwyllgor am dystiolaeth ysgrifenedig gan gyrff yn y trydydd sector a chyrff ariannu ar hyd a lled Cymru. Cawsom 58 o ymatebion. Mae rhestr o'r rheini a ymatebodd i'w gweld yn Atodiad 3.

## Ymweliadau 'Rapporteur'

I ategu'r dystiolaeth hon, bu Aelodau unigol o'r Pwyllgor yn ymweld â rhai grwpiau yn y sector gwirfoddol yn eu hetholaethau:

- **Dawns Dyfed**; Nerys Evans AC a Paul Davies AC
- **Cyngor Cymru i'r Deillion**; Dai Lloyd AC
- **Clwb Gwaith Cartref Wrecsam**; Lesley Griffiths AC
- **Greater Manchester Community Foundation;** Mark Isherwood AC

## Cydraddoldeb

Dim ond gan gyfran fechan o'r 30,000 o'r cyrff y trydydd sector yng Nghymru y cawsom dystiolaeth ond, er hyn, mae'r Pwyllgor o'r farn bod y dystiolaeth yn sampl gynrychiadol; mae'n cynnwys y llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, Cynghorau Gwirfoddol Sirol, cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, merched, plant a phobl ifanc, pobl hŷn, grwpiau ethnig, grwpiau crefyddol, pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol.

## Cynaliadwyedd

Er mwyn lleihau defnydd diangen o bapur, nid yw'r dystiolaeth ysgrifenedig na'r trawsgrifiadau o gyfarfodydd y pwyllgor wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn - er ein bod yn cynnwys dyfyniadau gan rai o'r cyfranwyr i esbonio rhai materion penodol yn yr adroddiad.

Mae papurau'r Pwyllgor, trawsgrifiadau o'r cyfarfodydd ac ymatebion i'r ymgynghoriad ar wefan y Pwyllgor ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: www.cynulliadcymru.org

## 6. Materion allweddol

### Cyflwyniad

Daeth nifer o faterion allweddol i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad hwn ac mae'r rhain yn cael eu trafod isod. Pan fo modd, rydym wedi nodi amserlen ar gyfer y gwaith. Rydym wedi amlygu'n hargymhellion yn yr adran hon; ac maent hefyd wedi'u rhestru ar wahân yn Adran 7.

**Terminoleg**

Yn y gorffennol, cyfeiriwyd at y sector hwn fel y sector gwirfoddol fel arfer oherwydd bod y rhan fwyaf a oedd ynghlwm wrtho'n wirfoddolwyr. Mae hyn yn dal yn wir, ond mae agweddau wedi newid ac yn awr mae'r term yn cael ei ystyried braidd yn nawddoglyd; yn awgrymu nad yw'r gwaith sy'n cael ei wneud gan grwpiau gwirfoddol cystal â'r gwaith a wneir gan y sectorau cyhoeddus neu breifat. Dywedodd llawer o'r grwpiau a roddodd dystiolaeth i ni fod yn well ganddynt y term 'trydydd sector'. Caiff y term hwn ei ddisgrifio ym mharagraff 3.8 o Gynllun Gweithredu Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru:

"Mae'n hanfodol gwerthfawrogi ehangder sylweddol y mudiadau a'r mathau o weithgareddau y mae'r term yn eu cwmpasu. Mae cymdeithasau cymunedol, grwpiau hunangymorth, mudiadau gwirfoddol, elusennau, mudiadau seiliedig ar ffydd, mentrau cymdeithasol, busnesau cymunedol, cymdeithasau tai, a mudiadau cydweithredol a chydfuddiannol. Maent ar ffurf ystod o ffurfiau sefydliadol, yn cynnwys elusennau cofrestredig and anghofrestredig, cwmnïau a gyfyngir dan warant (a allant hefyd fod yn elusennau cofrestredig), Cwmnïau Buddiannau Cymunedol, Cymdeithasau Diwydiannol a Chyfeillgar a mudiadau nad ydynt wedi'u hymgorffori. Mae gan bob mudiad ei nodau ei hun, ei ddiwylliant unigryw, ei set o werthoedd a'i ffordd o wneud pethau, ond maent oll yn rhannu rhai nodweddion pwysig, sef eu bod yn:

- Gyrff annibynnol, nad ydynt yn gyrff y llywodraeth;
- Wedi'u sefydlu'n wirfoddol gan ddinasyddion sy'n dewis eu trefnu;
- Wedi'u gyrru gan werth a'u hysgogi gan y dymuniad i ddatblygu ymhellach amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol, yn hytrach na gwneud elw yn unig, a
- Yn ymrwymedig i ail-fuddsoddi eu gwarged i ddatblygu ymhellach eu hamcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol."

Teimlwn ei bod yn bwysig defnyddio'r derminoleg briodol, a nodwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dechrau defnyddio'r term 'trydydd sector' yn ei dogfennau polisi a'i chanllawiau.

## Rôl a chanfyddiad

Mae gan y trydydd sector ran hanfodol mewn cymdeithas ddinesig. Yn ei chynllun gweithredu strategol, mae Llywodraeth y Cynulliad yn nodi tair rôl allweddol ar gyfer y sector:

- Yn gyntaf, ei rôl fel cyfrwng i "ysgogi a hwyluso hunangymorth, ymgysylltiad y cyhoedd a gwaith sydd o fudd cymdeithasol mewn cymunedau sy'n cael eu diffinio ar sail ardal ddaearyddol ac ar sail buddiannau";

- Yn ail, "cyfraniad posibl y sector, drwy ei brofiad rheng flaen, i'r broses o gynllunio, gwerthuso ac ail-lunio polisïau, gweithdrefnau a dulliau o weithio";

- Yn drydydd, ei rôl yn y gwaith o "helpu i roi rhaglenni Llywodraeth y Cynulliad ar waith drwy gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus."

Dyma sut y disgrifiodd **CGGC** yr agweddau hyn ar y sector:

"**Cymunedau cryfach:** Y trydydd sector yw'r llwybr i'w ddilyn ar gyfer y rhan fwyaf o bobl os ydynt eisiau gweithredu yn y gymuned. Y sector hwn sy'n darparu ein "cyfalaf cymdeithasol- y gweithgareddau a'r gwasanaethau lleol a drefnir gan filoedd o grwpiau sy'n rhan o fywydau pobl o ddydd i ddydd, ac elfen hanfodol o adfywio cymunedol. Mae gwirfoddoli a gwaith cynnwys cymunedau yn darparu camau ar gyfer magu hyder, dysgu sgiliau newydd a sgiliau trosglwyddadwy, a goresgyn anweithgarwch economaidd.

**Polisi gwell:** Mae gan y trydydd sector rôl ganolog yn y gwaith o nodi, hyrwyddo a chynrychioli anghenion a blaenoriaethau gwahanol gymunedau daearyddol a chymunedau o ddiddordeb. Mae gan nifer o'r mudiadau hyn arbenigedd a phrofiad a all helpu i gyfrannu at ddatblygu polisïau, annog dinasyddion i dderbyn dulliau gweithredu newydd, hybu cydraddoldebau a hawliau dynol a sicrhau datblygu cynaliadwy ar bob lefel ar lywodraeth.

**Gwell gwasanaethau cyhoeddus:** O ran darparu gwasanaethau i'r cyhoedd, gall y sector helpu i lunio modelau gwasanaeth gwahanol a gwell mewn sawl maes er mwyn diwallu'r anghenion sy'n newid. Mae ganddo ddiddordeb penodol mewn dulliau gweithredu ar y cyd er mwyn ailwampio gwasanaethau yn hytrach na dim ond cael ei ystyried fel dewis arall wrth ddarparu gwasanaethau cyfredol – trawsnewid yn hytrach na throsglwyddo. Mae ganddo'r potensial i ganolbwyntio'n well ar y defnyddiwr, cyrraedd pobl yn well a sicrhau gwell canlyniadau na'r wladwriaeth."

Teimlai rhai cyfranwyr nad oedd cyfraniad hanfodol y trydydd sector i'r meysydd hyn ar bolisi cyhoeddus yn cael ei gydnabod na'i wobrwyo'n ddigonol. Roedd canfyddiad mai sector i ymgynghori ag ef ydoedd, yn hytrach na phartner strategol yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Rydym o'r farn y dylid herio'r canfyddiad hwn gan y gallai beri i wirfoddolwyr gael eu dadrithio a cholli diddordeb. Mater i'r tri sector ddelio ag ef yw hwn, ond teimlwn y dylai'r sector cyhoeddus gymryd yr awenau.

- **Chwarae Teg:** "Mae'r sector cyhoeddus yn dibynnu fwyfwy ar wasanaethau sy'n cael eu caffael o'r sector gwirfoddol. Nid yw'r berthynas bresennol bob amser yn caniatáu sicrwydd a thwf i gontractwyr y sector gwirfoddol. Gellir dibynnu ar y sector gwirfoddol i gynnig arloesedd o ran polisi a darpariaeth ond mae angen gwneud yn siŵr bod digon o amser ac adnoddau ar gael i gynnal y 'meddylfryd' neu'r gwaith ymgynghori hwn. Rhaid peidio â meddwl am y sector gwirfoddol fel y 'dewis rhataf' ond yn hytrach fel adnawdd gwerthfawr a chost effeithiol. Rhaid ystyried y berthynas fel partneriaeth gytbwys sy'n gweithio ar y cyd er budd pobl Cymru."

- **NIACE Dysgu Cymru:** "Rydym yn argymell bod yr ymchwiliad yn amlygu pwysigrwydd y sector gwirfoddol, yn arbennig o ran gweld y bylchau mewn gwasanaethau a'r ffordd hyblyg y mae'n ymateb i hyn."

Mae'n bwysig ymgynghori â'r trydydd sector wrth adolygu polisïau. Ond mae'r trydydd sector yn gwneud mwy na gwrando ac ymateb; mae'n bartner gweithredol a dylid ei drin felly.

**<u>Argymhelliad 1</u>: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill drin y trydydd sector fel partner strategol wrth gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau cyhoeddus.**

## Cynghorau Gwirfoddol Sirol

Mae 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol (CGSau) sy'n gweithredu ym mhob rhan o Gymru. Cânt eu hariannu gan awdurdodau lleol ac maent yn rhoi cyngor a gwybodaeth i gyrff gwirfoddol a chymdeithasol cymunedol lleol. Maent yn hwyluso gwaith gwirfoddol drwy gefnogi gwirfoddolwyr, rhoi cyngor ynghylch arfer da, rhoi gwybodaeth am ffynonellau ariannu ac amrywiaeth eang o faterion eraill. Maent hefyd yn cynrychioli'r trydydd sector mewn partneriaethau traws-sector. Gall elusennau, grwpiau gwirfoddol a grwpiau cymunedol fod yn aelodau o'u CGS lleol.

Cyflwynodd dau Gyngor Gwirfoddol Sirol dystiolaeth i'r pwyllgor yn bersonol, sef **Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent** a **Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro.** Hefyd, ymatebodd **Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr** a **Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion** i'n cais am wybodaeth**.** Codwyd nifer o faterion

ganddynt a oedd yn berthnasol i'n hymchwiliad gan gynnwys cyllid, cyfathrebu a rhwydweithio rhwng grwpiau lleol a chyrff ymbarél cenedlaethol, meini prawf ariannu a chyllid a oedd wedi'i gysylltu ag ardaloedd daearyddol neu grwpiau targed penodol.

Gwelsom fod amrywiaeth sylweddol yn yr adnoddau sydd ar gael i'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol ar hyd a lled Cymru, a bod hyn yn effeithio ar eu gallu i roi digon o gymorth i gyrff gwirfoddol lleol. Teimlwn fod gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol ran bwysig yn y gwaith o hybu grwpiau gwirfoddol ond y gallent wneud mwy i helpu cyrff y trydydd sector i fod yn fwy hunangynhaliol. Rydym o'r farn y dylid adolygu'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol o bryd i'w gilydd i asesu eu perfformiad ac i nodi meysydd i'w gwella neu feysydd y mae angen adnoddau ychwanegol arnynt. Yn ddelfrydol, asiantaeth annibynnol, yn hytrach na'r awdurdod lleol perthnasol, ddylai gynnal yr adolygiad hwn er mwyn ceisio osgoi unrhyw bosibilrwydd o wrthdaro buddiannau. Ymddengys mai'r CGGC fyddai'r corff priodol.

Rydym o'r farn y dylai Cynghorau Gwirfoddol Sirol eu helpu eu hunain drwy adolygu'r trefniadau ar gyfer hysbysebu eu gwasanaethau. Diben hyn fyddai datblygu cysylltiadau â chyrff llai a rhoi cymorth ymarferol; er enghraifft, drwy eu helpu i lenwi ffurflenni cais. Credwn y gellid sefydlu prosiectau peilot dan arweiniad y CGSau ond sydd hefyd yn cynnwys y sector preifat, i helpu i feithrin gallu yn y trydydd sector.

**<u>Argymhelliad 2</u>: Dylai Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru adolygu ei weithdrefnau presennol ar gyfer monitro perfformiad y Cynghorau Gwirfoddol Sirol gan gynnwys mesurau meintiol ac ansoddol. Yna dylai Cyngor Gweithredu Gwirofoddol Cymru adolygu perfformiad y Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn erbyn y meini prawf hyn ar ffurf rhaglen dreigl. Dylid cwblhau'r adolygiad erbyn mis Ebrill 2010.**

**<u>Argymhelliad 3</u>: Dylai'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol adolygu eu trefniadau ar gyfer hysbysebu eu gwasanaethau er mwyn datblygu cysylltiadau â chyrff llai a rhoi cymorth ymarferol; er enghraifft, eu helpu i lenwi ffurflenni cais. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn erbyn mis Mawrth 2009.**

**<u>Argymhelliad 4</u>: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru noddi pedwar cynllun peilot mewn ardaloedd gwledig a threfol, gan ddefnyddio Cynghorau Gwirfoddol Sirol o bosibl, i roi hyfforddiant a chymorth i gyrff llai i fod yn fwy hunangynhaliol. Dylid annog y sector preifat i roi cymorth, naill ai drwy gynnig nawdd neu drwy fenthyg staff sydd â sgiliau arbennig ar secondiad am gyfnodau byr. Dylai'r ddau gynllun peilot cyntaf fod yn weithredol erbyn mis Mawrth 2009.**

## Cael gwybodaeth

Pwysleisiodd cyrff y trydydd  sector yr angen i gael gwybodaeth glir am yr arian sydd ar gael iddynt, a sut i wneud cais amdano. Hefyd, cawsom wybod nad yw bob amser yn glir pa gyrff sydd â hawl i wneud cais am grantiau penodol.

Gall cyrff yn y sector gwirfoddol gael gwybodaeth am yr arian sydd ar gael iddynt mewn nifer o wahanol ffyrdd. Mae nifer o wefannau defnyddiol, gan gynnwys gwefannau Llywodraeth Cynulliad Cymru, CGGC a Menter Gymunedol Cymru. Yn ogystal â hyn, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol a'r CGSau yn rhoi gwybodaeth am eu hardaloedd, ond does dim un ffynhonnell unigol ar gyfer gwybodaeth o'r fath.

- **Cyngor Sgowtiaid Cymru:** "Nid ydym wedi cael unrhyw anhawster cael gafael ar fanylion cyn gynted ag y cawn wybod am y cyfleoedd. Mae CGGC wedi trefnu cynadleddau i drosglwyddo gwybodaeth o'r natur hwn ond mae rhai gwirfoddolwyr yn gweithio yn ystod y dydd ac maent yn ei chael hi'n anodd mynd i gynadleddau yn ystod y dydd."

- **Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion:** "Mewn rhai achosion, mae angen hyrwyddo'r cyllid sydd ar gael yn fwy agored a thryloyw. Mae llawer o gynlluniau grant sy'n cael eu dosbarthu gan drydydd parti, fel awdurdodau lleol, yn aml yn cael eu dyrannu i'r partneriaid hynny y maent eisoes yn cydweithio'n agos â nhw, gan fod amser a gallu'n brin. Gall hyn olygu nad yw partneriaethau a phrosiectau newydd yn cael eu datblygu."

- **Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan:** "Ar ôl ymgynghori a chwblhau'r ymarferiad, nid oes unrhyw ymdrech i roi sylwadau i ni am y casgliadau. Pan fydd gweision sifil a chyrff ariannu'n ymgymryd â gwaith ymgynghori, dylid gofalu mai rhan o'u cylch gwaith yw dosbarthu eu hadroddiadau drafft cyn eu hanfon at wleidyddion a swyddogion polisi i'w trafod ymhellach.  Mae hyn yn gwbl hanfodol i sicrhau tryloywder a chywirdeb yr adroddiadau."

**<u>Argymhellion 5</u>: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i ddatblygu a chynnal porth canolog sy'n rhoi gwybodaeth am gyllid. Dylai hyn gynnwys cronfa ddata o ffrydiau ariannu y gellir eu chwilio; cyngor ynghylch gwneud cais am grantiau a sut i fod yn fwy hunangynhaliol drwy gael hyd i arian o ffynonellau gwahanol. Dylid hysbysebu'r pyrth hyn yn dda, dylent fod ar y we a dylent fod â lincs at awdurdodau lleol, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a chyrff yn y sector cyhoeddus. Dylai'r porth fod yn weithredol erbyn mis Mawrth 2009.**

## Arian craidd

Roedd llawer o gyrff y trydydd sector yn teimlo'n gryf y dylid ymdrin ag arian craidd, i helpu gyda recriwtio, cadw a chymell staff.

- **Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion:** "Mae'n dal yn anodd i grwpiau gwirfoddol sy'n bod eisoes gael cyllid i'w cynorthwyo gyda'u gweithgareddau craidd a'u costau rheoli. Mae'r pwyslais ar ddefnyddio cyllid i hybu gweithgareddau newydd tra bod llawer o grwpiau profiadol yn cael trafferth cynnal eu gwasanaeth gwerthfawr."

- **Clwb Achub Bywyd Rest Bay:** "Mae'n anodd iawn cael arian ar gyfer gweithgareddau craidd, hyd yn oed os yw'r gweithgareddau hynny wedi datblygu o brosiectau cyfredol. Byddai'n braf gallu gwneud cais am arian ar gyfer gweithgareddau craidd."

- **Cyngor Sgowtiaid Cymru:** "Mae'n hen bryd adolygu'r polisi ar ddarparu arian craidd – sy'n aml yn haws ei fesur oherwydd yr amcanion a bennir ar gyfer gwasanaethau proffesiynol – i'r rheini sy'n gwneud gwaith ieuenctid yn lleol."

- **Cyngor Cefn Gwlad Cymru:** "Un o brif bryderon cyrff yn y trydydd sector yw'r modd y mae arian yn cael ei gyfeirio at brosiectau newydd neu at ddulliau arloesol yn hytrach nag at gymorth craidd."

Roedd llawer o gyrff eraill yn teimlo'r un fath. Teimlwyd hefyd fod gormod o bwyslais ar ariannu prosiectau arloesol, yn aml ar draul prosiectau a oedd wedi dangos eu bod wedi llwyddo yn y gorffennol; roedd hyn yn arwain at rwystredigaeth ymhlith staff a gwastraffu amser yn ail-frandio prosiectau llwyddiannus.

**Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu ei meini prawf ariannu er mwyn cynyddu'r arian craidd ar gyfer prosiectau sydd wedi'u sefydlu eisoes gan hefyd gydnabod bod angen hybu arloesedd. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn erbyn mis Rhagfyr 2008.**

## Arian cynaliadwy

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi 'Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Sector Gwirfoddol' sy'n nodi y dylid ariannu prosiectau am gyfnod o dair blynedd fel arfer. Gwelsom fod cyrff gwirfoddol yn gyffredinol yn croesawu'r polisi hwn, ond nid yw eto wedi'i gyflwyno ar draws y sector, ac mae llawer o gyrff yn dal yn cael cyllid blynyddol.

Teimlai rhai o'r cyrff a ymatebodd nad yw tair blynedd yn ddigon hir ac y byddai system ariannu pum mlynedd neu gyfnod hirach yn eu helpu i gynllunio'u gwaith yn well. Ar y llaw arall, dadleuai eraill y gallai ariannu cyrff am gyfnodau hirach wneud iddynt laesu dwylo a cholli momentwm.

- **Cyngor Cefn Gwlad Cymru:** "Byddai cyrff yn gwerthfawrogi mwy o gymorth ymarferol o ran meithrin gallu; i'w helpu i fod yn fwy hunangynhaliol ac yn llai dibynnol ar grantiau."

- **Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru:** "Mae'r Ymddiriedolaeth wedi comisiynu adolygiad o'i gweithgareddau codi arian ac mae'n datblygu strategaeth ariannu fwy cynhwysfawr."

- **Cyngor Cymru i'r Deillion:** "Mae angen sefydlu cyllid traws-adrannol ar frys a chreu cyfleoedd i'r sawl sy'n ariannu a'r sawl sy'n cael yr arian gynllunio'u gwaith yn ymarferol ac yn gall. Gellid cyflawni hyn drwy annog adrannau'r Cynulliad i gydweithio mwy, drwy weithio'n fwy hyblyg neu drwy greu un gronfa ariannu benodol.

- **Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd:** "Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau â'r 'Gronfa Llawr Gwlad' ar ddiwedd y cynllun peilot a'i sefydlu fel ffynhonnell cyllid barhaus a dibynadwy ar gyfer cymunedau ymylol."

- **Llamau:** "Rydym yn cael arian atal digartrefedd 'adran 180' ar gyfer ein gwaith cymedroli ac i roi cyngor ynglyn â thai. Mae llawer o'r arian hwn yn cael ei roi ar ffurf cylch 3 blynedd sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd i'r prosiectau."

- **Age Concern Abertawe:** "Rydym yn byw gyda'r strwythur tymor byr hwn ond nid yw'n hybu gwerth da ac nid yw'n ffordd effeithiol o gynnal ein cymunedau. Rydym yn falch o gael cyllid 3-blynedd ar gyfer prosiectau peilot - ond ar ôl sefydlu prosiect da sy'n effeithiol, yn rhoi gwerth am arian, yn diwallu anghenion etc. does neb yn fodlon ei ariannu."

- **Solas Cymru:** "I oresgyn natur tymor byr llawer o grantiau, dylid cyflwyno grantiau ar wahanol lefelau lle byddai'r holl brosiectau peilot yn cael eu hariannu ond dim ond y rhai llwyddiannus fyddai'n parhau i gael arian am gyfnod o 5 mlynedd neu ragor."

- **Cyngor Cymru i'r Deillion**: "Nid yw'n effeithlon gwneud cais i 22 o awdurdodau lleol ac yn aml iawn nid yw'n effeithiol o safbwynt cyrff cenedlaethol. Weithiau mae'n cyfeirio'n amhriodol at strategaethau a safonau cenedlaethol."

- **Fairbridge Cymru:** "Mae'r penderfyniad i gosbi cyrff yn ariannol os nad ydynt yn gweithredu ar hyd a lled Cymru yn effeithio'n andwyol ar eu gallu i barhau i gynnig gwasanaethau yn eu hardaloedd lleol neu ranbarthol."

Mae'n well gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ariannu cyrff cenedlaethol ond weithiau, mewn rhai ardaloedd, gall grwpiau lleol ddarparu'r gwasanaeth yn well. Ar y llaw arall, mae'n drafferthus i gyrff cenedlaethol wneud cais am arian gan y 22 awdurdod lleol sydd yng Nghymru.  Rydym yn teimlo y dylid

creu system i'r grwpiau hyn wneud cais i un ffrwd ariannu er mwyn dileu'r angen i wneud nifer o geisiadau am grantiau.

Rydym o'r farn ei bod yn hanfodol sicrhau bod amrywiaeth o ffrydiau ariannu ar gael, i dalu am gostau cyfalaf a refeniw. Mae angen arian refeniw'n aml i helpu i ennyn diddordeb y gymdeithas ac i gynnwys pobl yng ngwaith y mudiadau. Heb yr elfen hon, mae perygl na chaiff adnoddau eu defnyddio'n effeithiol; er enghraifft adeiladau sy'n cael eu hailwampio ond nad ydynt yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial oherwydd prinder staff neu offer.

Credwn y dylid creu cysylltiad clir rhwng cynllunio strategol a chomisiynu gwasanaethau. Ar hyn o bryd, mae'r sector gwirfoddol yn buddsoddi llawer o amser ac ymdrech yn cymryd rhan mewn partneriaethau cynllunio. Mae canfyddiad o fewn y sector fod gormod o ffynonellau ariannu unigol, a bod lle i symleiddio'r system. Ymddengys mai mater i CGGC a'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol ymchwilio iddo yw hwn.

Problem arall yw pryd y mae grantiau'n cael eu dyrannu, yn enwedig ar ddechrau neu ddiwedd prosiectau. Dywedodd **Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent** fod grantiau y mae awdurdodau lleol yn eu rheoli ar ran y Cynulliad Cenedlaethol, yn atal y sector gwirfoddol yng Nghymru rhag ffynnu. Yn gyffredinol, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi grant o un flwyddyn i'r llall i gyrff fel Partneriaethau Diogelwch Cymunedol; ond yn aml iawn, nid yw maint y grant yn hysbys nes y bydd y flwyddyn ariannol wedi hen ddechrau.

Teimlwn ei bod yn bwysig dyfarnu grantiau mewn da bryd i leihau'r perygl o golli staff oherwydd bod cyllid yn hwyr yn cyrraedd ac i hwyluso'r broses o gynllunio strategol.

- **Cyngor Cefn Gwlad Cymru: "**Un o brif egwyddorion Cod Ymarfer Llywodraeth y Cynulliad yw bod grantiau'n daladwy ymlaen llaw – os yw angen wedi'i brofi. Ar hyn o bryd, rydym yn talu cyrff y trydydd sector ymlaen llaw os ganddynt dystiolaeth o angen."

- **Age Concern Abertawe: "**Mae amseru'n dyngedfennol; rydym yn cadw at y dyddiadau cau ac yn aml ni chawn wybod pryd y cawn y canlyniadau, sy'n golygu nad oes modd cynllunio ymlaen llaw. Mae pawb yn y mudiad yn awr yn cael ei reoli gan amser ac nid yw ond yn deg i'r rheini sy'n darparu arian ymddwyn yn gyfrifol. Os cawn wybod am ganlyniadau'n ceisiadau am arian, gallwn barhau i ddarparu gwasanaeth ac ystyried datblygiadau newydd i ddiwallu anghenion cyfredol."

- **Fairbridge Cymru: "**Mae'r amserlenni ar gyfer cylchoedd grant a'r amser a ganiateir wneud cais wedi bod yn ddigon i gasglu'r wybodaeth angenrheidiol. Byddem yn croesawu ymateb prydlon i geisiadau er mwyn cael digon o amser cyn diwedd y flwyddyn ariannol i fedru gofyn am arian o ffynonellau eraill. Mae angen i bawb ar bob lefel gydnabod pwysigrwydd ymateb i geisiadau mewn da bryd. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn ystod hanner olaf y flwyddyn ariannol."

- **NIACE Dysgu Cymru:** “Mae’r gwahanol feini prawf a’r gwahanol gyfnodau ariannu’n her arbennig i ddarparwyr ddatblygu a gweithredu strategaethau hirdymor. Anaml y mae arian ar gael y tu hwnt i gylch blynyddol, ond gall yr oedi sy’n digwydd yn y broses o geisio sicrhau arian o un flwyddyn i’r llall arwain at nifer o sgil effeithiau gan gynnwys tuedd i ymarferwyr profiadol a staff profiadol adael y sector gwirfoddol.”

- **Y Gronfa Loteri Fawr:** “Dylid cynnal archwiliad o’r rhaglenni ariannu presennol i symleiddio mentrau a safoni’r trefniadau ariannu, yn unol â’r cod ymarfer ar gyfer ariannu’r trydydd sector.”

Cynigiodd **Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro** y syniad o greu Sefydliadau Cymunedol a’u defnyddio fel cyfrwng i ddenu cyllid a buddsoddiad o amrywiol ffynonellau gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru; llywodraeth leol, cyfraniadau corfforaethol a chan unigolion preifat. Byddai’r adnoddau hyn, wedi’u cyfuno, yn creu hyblygrwydd i roi arian craidd mwy hirdymor ar gyfer prosiectau sydd wedi dangos eu bod yn llwyddiannus.

Cawsom dystiolaeth gan y **Sefydliad Cymunedol yng Nghymru**, sy’n elusen annibynnol, a sefydlwyd i ddarparu ffynhonnell barhaol o arian i brosiectau cymunedol ar hyd a lled Cymru. Caiff grantiau eu hariannu drwy gyfraniadau gan unigolion, teuluoedd, busnesau, ymddiriedolaethau elusennol ac incwm o waddolion. Yn wahanol i Sefydliadau Cymunedol eraill y Deyrnas Unedig, nid yw’r Sefydliad yng Nghymru yn dosbarthu rhaglenni grant y Cynulliad Cenedlaethol nac awdurdodau lleol. Caiff ei holl grantiau eu hariannu gan ffynonellau preifat, llawer ohonynt o’r tu allan i Gymru.

- **Y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru:** “Mae’n hanfodol ymdrechu i ddiwallu anghenion lleol: dylai rhaglenni grant sicrhau eu bod yn cydnabod pwysigrwydd blaenoriaethau ac anghenion lleol – ac hyd yn oed cymdogaethol. Yn ogystal â hyn, rydym yn argymell y dylai rhaglenni yn y dyfodol ystyried fwyfwy yr angen i fod yn hyblyg ac i fentro ac i gefnogi pobl yn eu cymdogaethau eu hunain sy’n dangos yr egni, y brwdfrydedd, yr ymroddiad a’r penderfyniad sydd wrth wraidd ein sector.”

  “Ers 1999, mae’r Sefydliad, gan weithio mewn partneriaeth â busnesau lleol a chenedlaethol, unigolion ac ymddiriedolaethau unigolion elusennol, wedi dosbarthu dros £3 miliwn ar ffurf grantiau dray Gymru. Yn ystod y flwyddyn ariannol diwethaf, rhannwyd £816,000 i183 o gyrff cymunedol, prosiectau ac elusennau yng Nghymru.”

  “At ei gilydd, mae’r 56 o Sefydliadau Cymunedol yn y Deyrnas Unedig yn cynrychioli’r pumed corff mwyaf sy’n ariannu mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol.”

Ymwelodd **Mark Isherwood AC** â’r Greater Manchester Community Foundation a chyflwynodd adroddiad am ei gasgliadau. Mae’r sefydliad yn codi arian gan gymwynaswyr a busnesau lleol cyfoethog, gan weithio drwy

‘reolwyr cyfoeth’ y sector preifat er enghraifft, Coutts Bank. Mae’r Sefydliad hefyd yn rheoli ‘llif arian’ sef rhoddion gan fusnesau’n bennaf, i’w wario yn enw’r rhoddwr ar brosiectau yn y gymuned. Mae Sefydliadau Cymunedol yn gweithio gydag awdurdodau lleol a CGSau i ychwanegu at yr arian a gaiff y trydydd sector gan y sector cyhoeddus. Mae’r Sefydliad wedi cynnig y dylai awdurdodau lleol ddefnyddio Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i ddarparu cyfran (5% i ddechrau) o ‘elw cynllunio’ datblygwyr preifat i ariannu prosiectau seilwaith y trydydd sector.

Yn ogystal â chodi arian gan y sector cyhoeddus mae Sefydliadau Cymunedol yn Lloegr hefyd yn dosbarthu grantiau i’r sector gwirfoddol; ond yng Nghymru, y CGGC a’r CGSau sy’n rheoli’r broses o ddyrannu grantiau. Gwahaniaeth arall yw bod y rhan fwyaf o Sefydliadau Cymunedol yn Lloegr yn bod ers ugain mlynedd a rhagor, a’u bod, felly, wedi cael amser i feithrin cysylltiadau â chyfranwyr cyfoethog ac i ddatblygu cronfeydd gwaddol sylweddol.

Mae’r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru yn dal yn datblygu’r rhwydweithiau hyn ac yn adeiladu ei adnoddau. Cafodd brwdfrydedd y Cadeirydd a Phrif Weithredwr y Sefydliad yng Nghymru gryn argraff arnom ynghyd â’r posibilrwydd o efelychu llwyddiant y Sefydliadau yn Lloegr. Rydym o’r farn bod y Sefydliad Cymunedol mewn sefyllfa ddelfrydol i weithredu fel porth i grwpiau cymunedol fedru sicrhau arian.

**Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gadarnhau a hybu’r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru fel cyfrwng priodol i reoli a chodi gwerth asedau segur ac asedau nad oes neb yn eu hawlio, a chronfeydd segur o wahanol ffynonellau. Diben hyn fyddai i’r Sefydliad greu cronfeydd gwaddol i greu ffynhonnell ariannu gynaliadwy, hirdymor, annibynnol ar gyfer y trydydd sector, a byddai’r Sefydliad yn ychwanegu gwerth drwy gyfrwng cronfeydd y sector preifat (busnesau, unigolion ac ymddiriedolaethau) i gynyddu’r buddsoddiad hwn mewn grwpiau cymunedol, prosiectau ac elusennau lleol ar hyd a lled Cymru.**

Teimlwn ei bod yn bosibl ehangu gwaith y **Sefydliad Cymunedol yng Nghymru** i gynnwys dosbarthu arian gan y Cynulliad Cenedlaethol, awdurdodau lleol a’r sector preifat i gynnal prosiectau cymunedol buddiol sydd wedi’u sefydlu eisoes ac sydd wedi profi eu bod yn llwyddo.

Clywsom gan **Fenter Gymunedol Cymru**, corff di-elw sy’n ymgymryd â gweithgareddau masnachu drwy gynorthwyo cyrff y trydydd sector gyda’u cynlluniau busnes a datblygu. Maent yn rhoi cyngor i helpu cyrff gwirfoddol i fod yn fwy hunangynhaliol.

- “Os yw mentrau cymdeithasol newydd yn mynd i lwyddo i sicrhau incwm grant, mae’n rhaid iddynt ddangos sut y caiff y grant ei ddefnyddio fel incwm i’w fuddsoddi, a dangos sut y byddant yn datblygu ffrydiau incwm cynaliadwy. Os yw corff am ddatblygu o feddylfryd byd y grantiau i fod yn rhan o’r diwylliant busnes a masnach, mae’n rhaid i’r cyllid fod yn ymarferol ac yn hirdymor – ar gyfartaledd, bydd menter gymdeithasol yn cymryd 5-7 mlynedd i’w sefydlu’n iawn

ac i gyrraedd lefel gynaliadwy dderbyniol. Ni fedrwch gynllunio a datblygu busnes gyda chyllid dros gyfnod byr, nac os nad yw'r gwasanaethau'n cael eu hariannu ar sail adennill costau llawn.

- Drwy gaffael, mae cyfle i fentrau cymdeithasol symud ymlaen i greu trefniadau cytundebol mwy ffurfiol a chael gwell rheolaeth dros eu dyfodol eu hunain. Fodd bynnag, prin yw arbenigedd llawer o'r mentrau hyn ym maes caffael; mae'n bosibl nad ydynt yn deall sut i gostio'u gwasanaeth yn fasnachol a gan eu bod, yn hanesyddol, yn cael eu gweld fel cyrff gwirfoddol, cânt eu hystyried fel y 'dewis rhataf' yn aml. Mae nifer o broblemau i'w datrys i sicrhau bod mentrau cymdeithasol yn gallu cymryd rhan yn y broses gaffael:
  - Mae hysbysiadau tendro ar 'Gwerthwch i Gymru' a safleoedd eraill yn gofyn am dystiolaeth o gytundebau cyflenwi tebyg o ran maint a graddfa - sut mae modd i fentrau cymdeithasol dibrofiad dorri drwy'r rhwystr hwnnw ac ennill profiad?

  - Mae'n rhaid i fentrau cymdeithasol ddangos gwerth ychwanegol – does dim rhaid i gyrff yn y sector preifat wneud hynny. Os yw safon y gwasanaeth yr un fath, dylid rhoi mantais i'r cyrff hynny sy'n dangos y byddant yn gwneud lles i'r gymuned.

  - Mae angen mynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn cyrff sydd wedi darparu gwasanaethau 'am ddim' yn y gorffennol drwy gyfrwng grant a rhoddion- os bydd y cyrff hyn yn dechrau codi am eu gwasanaeth mae tystiolaeth yn dangos na fyddant yn cael eu defnyddio rhagor.

  - Ymddengys bod maint cytundebau a thaliadau'n dal yn broblem er gwaethaf addewidion i rannu'r cytundebau. Mae llif arian yn broblem i fentrau cymdeithasol wrth sicrhau cytundeb newydd, a gall taliadau hwyr, neu'r angen i wario cyn dechrau ar y gwaith, atal pwyllgorau rheoli, sy'n cynnwys cyfarwyddwyr gwirfoddol, rhag gwneud trefniadau cytundebol. Mae CEW wedi rheoli cronfa ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin am 8 mlynedd, sy'n rhoi benthyciadau di-log i leddfu problemau llif arian mentrau cymdeithasol sydd wedi sicrhau arian ôl-weithredol. Mae ceisiadau'n cael eu prosesu'n gyflym ac mae'r gronfa hon wedi caniatáu i nifer o brosiectau fwrw ymlaen â'u gwaith lle na fyddent, fel arall, wedi gallu parhau. Byddai cronfa debyg ar gyfer mentrau cymdeithasol sydd wedi sicrhau cytundeb yn dileu'r rhwystr cychwynnol o ran buddsoddiad sy'n wynebu llawer ohonynt. Gellid cynnig cymorth datblygu pellach i helpu â'r llif arian a'r cynlluniau ariannol ac i sefydlu systemau cadarn ar gyfer rheoli, cyfrifyddu a chyflwyno adroddiadau ariannol cadarn."

Mae'n bosibl na fydd hyn yn briodol i bob grŵp, ond teimlwn fod posibilrwydd i ragor o gyrff yn y trydydd sector fod yn llai dibynnol ar grantiau. Mae gwefan CGGC yn rhoi cyngor a chanllawiau ymarferol i gyrff sydd am ddatblygu agwedd entrepreneuraidd tuag at gyllid er mwyn sicrhau cynaliadwyedd

ariannol hirdymor drwy gael hyd i ffynonellau incwm amrywiol. 'Cyllid Cynaliadwy Cymru' yw'r enw a roddir ar y rhan hon o'r wefan - www.sustainablefundingcymru.org.uk - Dylai gael lle amlwg yn y porth gwybodaeth newydd y cyfeirir ato yn Argymhelliad 5.

**Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fonitro i ba raddau y mae'n arferol dyrannu cyllid am gyfnod o dair blynedd, yn unol â'r cod ymarfer ar gyfer ariannu, a nodi mathau o brosiectau y byddai'n fwy priodol dyrannu cyllid iddynt am gyfnodau hirach. Dylid cyhoeddi adroddiad am y broses monitro hon fis Mawrth 2009.**

**Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r gwahanol ffrydiau ariannu sydd ar gael naill ai'n uniongyrchol neu drwy ei hasiantaethau, i weld a fyddai'n bosibl eu cyfuno. Dylid hefyd asesu a yw'r cydbwysedd rhwng arian refeniw ac arian cyfalaf yn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau. Dylid cwblhau'r adolygiad erbyn mis Mawrth 2009.**

**Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i adolygu'r dulliau o ddarparu arian i gyrff sy'n cynnig gwasanaeth i Gymru gyfan, er mwyn dileu'r angen i wneud nifer o geisiadau gwahanol am grantiau. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn erbyn mis Rhagfyr 2009.**

**Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu ei god ymarfer ar gyfer ariannu, er mwyn i gyrff yn y trydydd sector fedru cynllunio'u gwaith yn fwy strategol. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn erbyn mis Rhagfyr 2009.**

## Arian gan Llywodraeth Leol

Cawsom dystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ar ran y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Nid yw polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru yng nghyswllt ariannu'r trydydd sector, sydd wedi'u gosod allan yn ei Gynllun Sector Gwirfoddol, yn cynnwys llywodraeth leol. Nid yw Llywodraeth y Cynulliad ychwaith yn rhoi cyfarwyddyd polisi i awdurdodau lleol ynghylch ariannu'r trydydd sector. Fodd bynnag, fel un o brif arianwyr y trydydd sector yng Nghymru, mae llywodraeth leol yn ceisio cadw at lawer o'r egwyddorion sydd wrth wraidd cod ymarfer Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer ariannu.

Yn 2003, cyhoeddodd CLILC a CGGC 'Dyfodol ar y Cyd?', sef canllawiau ar sut i gryfhau'r berthynas a'r bartneriaeth rhwng awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Roedd y canllawiau hyn ar arfer da yn ymdrin â materion fel cynllunio cymunedol, compactau a chytundebau polisi ac yn cynnwys cod ymarfer gwirfoddol ar gyfer ariannu'r trydydd sector. Mae copi o'r canllawiau hyn i'w weld yn www.wlga.gov.uk

Cynhaliodd CGGC arolwg yn 2007 a ddangosodd fod gan 10 o awdurdodau lleol god ymarfer ar gyfer ariannu a bod pum awdurdod lleol arall wrthi'n datblygu cod ymarfer yn y cyswllt hwn. Gwelodd CGGC, fodd bynnag, nad yw'r codau ymarfer hyn yn cael eu dilyn yn gyson ym mhob awdurdod lleol.

Er nad ydym yn dymuno gorfodi pob awdurdod lleol i ddefnyddio'r un cod ymarfer, teimlwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad gomisiynu'r CGGC i gynnal archwiliad o godau ymarfer awdurdodau lleol ar gyfer ariannu i nodi ac i rannu arfer da ac i'w cymharu â chod ymarfer Llywodraeth y Cynulliad ei hun. Dylai awdurdodau lleol hefyd godi ymwybyddiaeth o'r codau hyn ymhlith ei staff ei hun a'u partneriaid yn y trydydd sector.

O gofio mai llywodraeth leol yw un o'r prif gyrff sy'n noddi ac yn comisiynu gwasanaethau'r trydydd sector yng Nghymru, mae'n hanfodol bod ei gweithgareddau'n cael eu seilio ar egwyddorion partneriaeth a rheolaeth fusnes dda.

Mae'r canllaw a baratowyd ar y cyd gan CLILC / CGGC, y cyfeiriwyd ato uchod, yn cynnwys amcanion craidd rydym yn eu cadarnhau, sef:

- Trafodaeth adeiladol gynnar;
- Parchu annibyniaeth y sector,
- Cyllid pendant;
- Lefelau ariannu teg;
- Taliadau ymlaen llaw;
- Triniaeth deg a rhesymol;
- Monitro a gwerthuso ar y cyd;
- Caffael drwy gydweithio
- Pwy sy'n gwneud beth orau?

Roeddem yn falch o ddeall bod CLILC yn cynnal adolygiad manwl ar hyn o bryd o berthynas llywodraeth leol â'r trydydd sector, ac rydym yn edrych ymlaen at gael copi o'u hadroddiad maes o law.

Mae llywodraeth leol yn rhoi arian i'r sector gwirfoddol mewn dwy ffordd; dyrannu grantiau a chaffael gwasanaethau. Rydym yn cytuno â CGGC y dylai awdurdodau lleol egluro diben y cyllid yn well a phenderfynu a ydynt yn siopa (prynu neu gaffael gwasanaethau) yn rhoi (cyfrannu at amcanion cyffredinol neu genhadaeth mudiad) neu'n buddsoddi (canolbwyntio ar berthynas mwy hirdymor sy'n seiliedig ar gynorthwyo'i gilydd a buddiannau cyffredin).

Mae rhagor o gyrff yn y trydydd sector yn fodlon cystadlu â'r rheini yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Teimlwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad ofyn i awdurdodau lleol adolygu eu gweithdrefnau ar gyfer pwyso a mesur risg, sicrhau gwerth am arian ac i ba raddau y gall darpar ddarparwyr sicrhau bod buddiannau ehangach y cyhoedd/defnyddwyr gwasanaeth yn ganolog i'w gwasanaeth.

- **Ymddiriedolaeth y Tywysog: “**Mae awdurdodau lleol yn cael eu beirniadu am chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o weithio gyda phobl ifanc yn hytrach na pharhau â rhaglenni ariannu sydd wedi dangos eu bod yn gweithio.”

- **Age Concern Castell-nedd Port Talbot: “**Mae gan eu pwyslais ar feithrin gallu cyrff canolraddol (fel y CGSau), a ffurfiwyd i ddarparu gwasanaethau a chymorth i gyrff yn y sector gwirfoddol, oblygiadau arwyddocaol i'r sector – ac nid ydynt i gyd yn rhai positif.”

- **Shelter Cymru:** “Rydym yn cael cryn dipyn o arian gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer ei rhwydwaith o wasanaethau tai arbenigol…Mae'r gwasanaethau hyn yn cael arian gan Gomisiwn y Gwasanaethau Cyfreithiol a rhai awdurdodau lleol, ond mae'n hanfodol eu bod yn annibynnol, a'u bod yn cael eu gweld yn gweithredu'n annibynnol gal gwsmeriaid a darpar gwsmeriaid…yn y cyswllt hwn, byddem yn ategu'r pwynt a wnaed gan Gyngor Ar Bopeth Cymru yn eu tystiolaeth, sef bod awdurdodau lleol yn wynebu gwrthdaro buddiannau posibl wrth gomisiynu gwasanaethau cynghori mewnol. Rhaid gofyn hefyd a all y rhain gynrychioli buddiannau eu cwsmeriaid yn ddigonol.”

- **Clybiau Plant Cymru:** “Dylai'r gwasanaethau sydd i'w comisiynu fod yn agored i bawb…os mai dim ond rhai gwasanaethau sy'n cael eu caffael, sy'n cynnwys y sector gwirfoddol, yna rhaid cael rhyw fath o fecanwaith sy'n agored ac yn dryloyw i bawb ac sy'n nodi'r meini prawf a fydd yn sail i benderfyniadau ac yn nodi rhan y sector gwirfoddol.”

- **Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr:** “Rydym yn poeni y bydd y broses caffael, tendro a chomisiynu'n disodli'r broses grantiau a byddem yn croesawu gweithdrefnau clir ar gyfer penderfynu pryd y bydd y broses grantiau neu'r broses gaffael yn cael eu cymhwyso.”

- **Age Concern Abertawe:** “Rydym yn adennill ein costau llawn (ac yn ddiolchgar i gymorth y Cynulliad yn y cyswllt hwn) ac rydym wedi cael nawdd 3 blynedd sylweddol gan Fanc Barclay.”

- **Fairbridge Cymru:** “Credwn y dylid defnyddio modelau adennill costau llawn yng nghyswllt grantiau prosiect, gan gydnabod bod grantiau bach yn ffurfio rhan sylweddol o incwm y sefydliad.”

- **Cyngor ar Bopeth Tor-faen:** “Yr anhawster mwyaf yw mai anaml iawn y mae cyllid yn cael ei seilio ar adennill costau'n llawn ac nid yw'n ysytried chwyddiant. Hyd yn oed oes yw prosiect yn cyrraedd ei holl dargedau a'i fod, drwy hynny, yn cyflawni'r amcanion strategol craidd sydd wrth wraidd y cynllun, mae'n rhaid i gyrff gyfrannu'n ariannol at y prosiect, ei gwtogi neu ddirwyn y gwasanaeth i ben er mwyn mynd i'r afael â'r cyfyngiadau ariannu.”

**Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i gynnal adolygiad o godau ymarfer presennol y sector cyhoeddus ar gyfer ariannu'r trydydd sector er mwyn nodi a rhannu arfer da erbyn mis Mawrth 2009.**

**Argymhelliad 13: Dylai'r holl gyrff perthnasol yn y sector cyhoeddus (gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a chyrff ariannu statudol eraill) ddatblygu a gweithredu codau ymarfer ar gyfer ariannu'r trydydd sector (dyrannu grantiau a chaffael gwasanaethau) erbyn mis Rhagfyr 2009. Dylai'r rhain sicrhau bod gweithdrefnau caffael yn caniatáu i'r trydydd sector gystadlu â'r sectorau cyhoeddus a phreifat am gytundebau a dylent hefyd ystyried adennill costau llawn. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau a monitro'r broses o roi'r argymhelliad hwn ar waith.**

## Y drefn ar gyfer cyflwyno cais am arian

Yn gyffredinol, teimlir bod ffurflenni cais wedi'u drafftio'n wael a'u bod yn anodd eu deall. Gall hyn rwystro grwpiau yn y trydydd sector rhag gwneud cais, gwastraffu amser prin y staff a gall hefyd olygu nad yw cyrff yn cael arian oherwydd nad ydynt yn llenwi'r ffurflenni'n iawn.

Rydym o'r farn y byddai'n ddefnyddiol cynnal archwiliad i weld faint o Saesneg/Cymraeg clir y mae ffurflenni cais yn eu defnyddio er mwyn lleihau jargon, gwneud y ffurflenni'n haws i'w deall ac yn hawdd i'w llenwi. Tynnwyd ein sylw at nifer o enghreifftiau o arfer da gan gynnwys Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Llywodraeth y Cynulliad a chynllun 'Arian i Bawb' y Loteri Genedlaethol.

Teimlwn y dylid addasu'r broses ymgeisio yn ôl maint y grant dan sylw; felly dylai ffurflenni cais ar gyfer grantiau bach fod yn symlach na'r rheini ar gyfer grantiau mwy sylweddol. Dim ond dau neu dri aelod o staff sydd gan rai mudiadau bach felly byddai cymorth ymarferol i lenwi'r ffurflenni cais yn ddefnyddiol dros ben iddynt; teimlwn mai'r CGSau ddylai roi'r cymorth hwn.

Dylai ffurflenni cais gynnwys gwybodaeth am y modd y caiff ffurflenni cais eu hasesu, o ran y meini prawf a gaiff eu defnyddio a'r amserlen debygol ar gyfer penderfyniadau. Hefyd, dylai'r broses fod yn dryloyw, fel bod ymgeiswyr aflwyddiannus yn dysgu sut i wella'u ceisiadau yn y dyfodol. Awgrymwn y dylid cynnwys siart lif syml, yn dangos y broses asesu, gyda'r ffurflen gais.

- **Trafnidiaeth Gymunedol Gororau Cymru: "**Yn gyffredinol**,** mae digon o grantiau ar gael ar gyfer eitemau cyfalaf (fel cerbydau) ond gall y gwaith sydd ynghlwm wrth wneud cais amdanynt fod yn anferth."

- **Ymddiriedolaeth y Tywysog: "**Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflwyno amrywiaeth eang o raglenni a phrosiectau ond mae'n ei chael hin anodd cael arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cred yr Ymddiriedolaeth mai rhan o'r broblem yw'r llwybrau ariannu yn y

Cynulliad, sy'n disgwyl i gyrff gyfateb yn daclus i'r cynlluniau grant. Fel arall, ni chânt grant o gwbl. Gall hyn greu problemau wrth ddelio â phroblemau sy'n rhychwantu nifer o bortffolios gweinidogion."

- **Cyngor Cefn Gwlad Cymru:** "Gellid rhoi mwy o gymorth i gyrff yn y trydydd sector wrth iddynt baratoi ceisiadau cymhleth am arian gan nifer o ffynonellau gwahanol. Mae CCW yn chwilio am drydydd dewis i gydariannu cyrff sy'n gweithio mewn partneriaeth. Cyllid sydd hanner ffordd rhwng trefniant grant a thendr cystadleuol fyddai hwn (sy'n cyfyngu ar y gallu i ddatblygu partneriaethau ystyrlon ac i rannu gallu)."

- **Girlguiding Cymru:** "Gwirfoddolwyr yw'n holl weithwyr ieuenctid, ein hyfforddwyr a'n swyddogion gweithredol. Golyga hyn mai eu hymrwymiad cyntaf yw tuag at y bobl ifanc yn hytrach na thuag at lenwi ffurflenni cais, yn enwedig o gofio bod ganddynt swyddi llawn amser a chyfrifoldebau teuluol etc sy'n cyfyngu ar yr amser sydd ganddynt i weithio i'r mudiad Guides. Er ein bod yn arbenigo yn y gwaith o lenwi'n ffurflenni ein hunain, nid ydym bob amser yn ei chael hi'n hawdd darparu'r wybodaeth angenrheidiol mewn da bryd."

- **Solas Cymru:** "Mae Solas yn credu ei bod yn mynd yn anoddach o hyd cael arian o ffynonellau statudol, gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru, oherwydd sylwadau sy'n awgrymu bod cystadleuaeth gynyddol o du pobl broffesiynol ac ymgynghorwyr gyflogedig sy'n gwneud ceisiadau llwyddiannus am arian ar ran Elusennau Cenedlaethol."

- **Cyswllt Amgylchedd Cymru:** "Mae lefel y gwaith y mae angen i gyrff gwirfoddol ei wneud i gyflwyno cais am arian yn cynyddu. Os nad ydynt yn llwyddo, mae'n berygl y bydd hynny'n amharu ar allu'r cyrff hyn i gyflwyno gwasanaethau."

- **Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan:** "Mae diffyg gallu neu ddiffyg ddealltwriaeth drylwyr o wahanol gysyniadau neu jargon wrth lenwi ffurflenni cais. Rydym yn argymell bod adnoddau dynol ac ariannol yn cael eu rhoi i gyrff ymbarél sy'n rhoi cymorth penodol i gyrff sy'n ymwneud â chydraddoldeb hiliol wrth iddynt baratoi a llenwi ceisiadau am arian."

**<u>Argymhelliad 14</u>: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i adolygu:**

- **Yr holl ffurflenni cais, i wneud yn siŵr bod yr iaith yn glir ac yn hawdd ei deall, ac yn defnyddio cyn lleied o jargon â phosibl.**

- **Y gweithdrefnau ymgeisio, er mwyn addasu'r broses yn ôl maint y grant dan sylw, a hefyd er mwyn lleihau biwrocratiaeth drwy ddefnyddio gwybodaeth a gyflwynwyd eisoes. Er enghraifft, dylai**

**cais i adnewyddu grant gynnwys dim ond y manylion hynny sydd wedi newid ers y cais gwreiddiol.**

- **Yr holl ffurflenni cais i wneud yn siŵr eu bod yn cynnwys gwybodaeth am y modd y caiff ceisiadau eu prosesu; er enghraifft, meini prawf asesu, pryd y caiff penderfyniad ei wneud a siart lif syml yn dangos yr holl broses ymgeisio. Mae'n bwysig fod y broses ymgeisio'n dryloyw a bod cyfle i bobl roi sylwadau arni.**

**Dylid cwblhau'r adolygiadau hyn erbyn mis Mawrth 2009.**

## Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd

Gwelsom fod yr oedi wrth ddyfarnu arian grant yr Undeb Ewropeaidd yn y cylch presennol yn peri pryder cyffredinol gan ei fod yn bygwth prosiectau'r trydydd sector. Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaid Cymru, wneud rhagor i hwyluso'r broses hon, i sicrhau cyllid di-dor ac i roi rhagor o wybodaeth i'r sector am hynt y ceisiadau a'r hyn sy'n digwydd.

Yn ôl **Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro** roedd gwahaniaeth mawr rhwng y broses anodd o gael arian drwy Raglen Cydgyfeirio'r Uned Ewropeaidd a'r broses gymharol hawdd o gael arian drwy Raglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol.

**Argymhelliad 15: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd am y cyllid sydd ar gael gan yr Undeb Ewropeaidd a sut y caiff ei ddyrannu. Dylid dosbarthu'r wybodaeth drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a'r porth gwybodaeth ar y we. Dylid cyhoeddi'r wybodaeth hon bob chwarter, gan ddechrau fis Awst 2008.**

**Argymhelliad 16: Dylai Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru sefydlu canolfan gynghori i gynorthwyo cyrff y trydydd sector gyda'u ceisiadau am gyllid gan yr Undeb Ewropeaidd. Dylid sefydlu'r ganolfan hon erbyn mis Mawrth 2009.**

## Y cynllun cyfrifon segur

Nid ydym yn galw am gyllid ychwanegol ar gyfer y trydydd sector o gyllideb y Cynulliad Cenedlaethol. Ar ddechrau'r adroddiad hwn, rydym yn cydnabod y cynnydd sylweddol yn y cyllid y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei roi i'r trydydd sector yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Cynllun Cyfrifon Segur, fodd bynnag, yn gyfle i roi rhagor o gymorth ariannol i'r trydydd sector, heb i Lywodraeth y Cynulliad orfod gwario'n ychwanegol.

Mae Trysorlys Ei Mawrhydi wedi paratoi'r Mesur Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur, sydd newydd ddechrau ar ei daith drwy'r Senedd. Bydd y Mesur Cyfrifon Segur yn gosod fframwaith ar gyfer cynllun lle caiff arian mewn cyfrifon segur mewn banciau neu gymdeithasau adeiladu ei ddosbarthu at ddibenion cymdeithasol neu amgylcheddol, gan sicrhau hefyd fod perchnogion yr arian yn gallu hawlio'u harian yn ôl unrhyw adeg.

Bydd y Mesur yn:

- Sefydlu fframwaith ar gyfer y cynllun;
- Diffinio cyfrif banc segur;
- Enwi'r Gronfa Loteri Fawr fel y corff sy'n rhannu'r arian;
- Ei gwneud yn ofynnol i Gronfa'r Loteri Fawr rannu'r arian at ddibenion cymdeithasol ac amgylcheddol;
- Rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu dibenion manylach ar gyfer yr arian a ddyrennir yng Nghymru;
- Caniatáu i'r Gweinidog Gwladol osod allan dosraniad yr arian o'r cyfrifon segur;
- Diogelu hawl perchnogion i hawlio'u harian yn ôl unrhyw adeg.

**Argymhelliad 17: Ar ôl sefydlu'r Cynllun Cyfrifon Segur, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud yn siŵr bod Cymru yn cael cyfran briodol o'r cyllid a bod swm sylweddol yn cael ei gyfeirio at y trydydd sector.**

## Arian Loteri

Cawsom gyflwyniadau gan bedwar corff sy'n rhannu arian y Loteri Genedlaethol, sef y **Gronfa Loteri Fawr, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Cyngor Celfyddydau Cymru** a **Chyngor Chwaraeon Cymru.** Nid yw materion yn ymwneud â'r Loteri Genedlaethol wedi'u datganoli'n llawn ond mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi, gan nodi'r canlyniadau strategol gofynnol.

Mae'r **Gronfa Loteri Fawr** yn dosbarthu tua £50 miliwn i'r trydydd sector bob blwyddyn yng Nghymru a bydd yn dosbarthu arian o'r Cynllun Cyfrifon Segur.

Dosbarthodd **Cronfa Dreftadaeth y Loteri** tua £20 miliwn yng Nghymru yn 2006-07.

Dosbarthodd **Cyngor Celfyddydau Cymru** tua £26 miliwn i'r trydydd sector yn 2005-06 (nid yw'r ffigyrau ar gyfer y blynyddoedd wedyn ar gael).

Dosbarthodd **Cyngor Chwaraeon Cymru** tua £14 miliwn i'r trydydd sector yn 2005-06.

Bydd arian y Loteri yn gostwng tua £8 miliwn bob blwyddyn yng Nghymru o ganlyniad i benderfyniad y Deyrnas Unedig i ddyrannu £2.2 biliwn o arian y Loteri Genedlaethol i Gemau Olympaidd 2012.

Mae **Rhodri Glyn Thomas AC**, Gweinidog Treftadaeth y Cynulliad, wedi gofyn i'r Gweinidog cyfatebol yn San Steffan, beidio â gostwng arian y Loteri yng Nghymru ymhellach. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r safbwynt hwn.

- **Y Gronfa Loteri Fawr:** "Mae'r trefniadau ar gyfer cael Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr i gytuno ar gyfeiriad polisi yn creu cydbwysedd da rhwng atebolrwydd cyhoeddus a'r hyblygrwydd i ymateb i anghenion y gymuned. Caiff ei gymeradwyo fel model ar gyfer cyrff anadrannol."

- "Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn defnyddio dulliau ariannu sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac mae hynny'n rhoi sylfaen gadarn ar gyfer asesu a rheoli prosiectau. Mae'n cynnwys amrywiaeth o fodelau hyblyg i gyflwyno cymorth grant, gan gyfuno hyn â dulliau effeithiol o gynorthwyo ymgeiswyr. O ganlyniad i ddeddfwriaeth a ddaeth i rym yn ddiweddar mae'n bosibl i ni gyflwyno rhaglenni ariannu i gyrff eraill a byddem yn croesawu'r cyfle i drafod sut y gall ein harbenigedd gyfrannu at gynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella trefniadau ariannu'r trydydd sector."

- "Mae angen ymateb cydlynol gan bawb sy'n ariannu'r trydydd sector er mwyn symleiddio'u rhaglenni a'u gweithdrefnau. Fel rhan o'n cylch gwaith i hyrwyddo arfer da o ran arian grant, byddem yn croesawu'r cyfle i drafod sut y byddai modd cyflawni hyn gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff eraill sy'n ariannu'r trydydd sector."

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r agwedd adeiladol hon ac yn credu y dylai Llywodraeth y Cynulliad fanteisio ar y cyfle hwn i drafod symleiddio gweithdrefnau a rhannu arfer da.

**<u>Argymhelliad 18</u>: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal trafodaethau â'r Gronfa Loteri Fawr a dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol i archwilio sut y gellid symleiddio gweithdrefnau dosbarthu arian a rhannu arfer da. Dylid cynnal y trafodaethau hyn erbyn mis Rhagfyr 2008.**

### Trafodaeth rhwng y trydydd sector a'r cyrff ariannu

Dywedwyd wrthym fod cyrff y trydydd sector sydd â chysylltiad uniongyrchol â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn gyffredinol yn fodlon iawn â'r gwasanaeth y maent yn ei gael gan adrannau unigol. Ond oherwydd trosiant staff arferol, maent yn gorfod meithrin perthynas â swyddogion newydd dro ar

ôl tro. Mae problemau tebyg yn codi mewn trafodaethau ag awdurdodau lleol, CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a byrddau iechyd lleol.

Teimlai rhai cyrff y trydydd sector, yn enwedig y rhai bach, nad ydynt yn cael digon o gyfle i gael eu cynrychioli drwy rwydweithiau a chyrff ymbarél.

Rydym o'r farn y dylai'r llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol adolygu'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal lefel gwasanaeth gyson wrth iddynt ddelio â'r trydydd sector; gan rannu gwybodaeth â chydweithwyr pan fydd aelodau o staff sy'n delio â grwpiau yn y trydydd sector yn gadael, am ba reswm bynnag

- **Girlguiding Cymru**: "Ers sefydlu ein mudiad 100 mlynedd yn ôl, rydym wedi datblygu ardaloedd gweinyddol sydd wedi'u haddasu ar gyfer anghenion penodol y Guides. Gall y rhain fod yn ddaearyddol neu'n draddodiadol (e.e. ar hyd ffordd, rheilffordd neu'n seiliedig ar blwyfi neu esgobaethau). Er ein bod yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr ein bod yn rhan o bartneriaethau; yn rhannu un awdurdod lleol gyda thri o Gomisiynwyr y Guides (Powys) neu'n cael un Comisiynydd ar gyfer pump awdurdod lleol (Gwent), rydym yn ei chael hi'n anodd weithiau darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol o fewn yr amser dynodedig

- **Shelter Cymru:** "Gall nifer o ffactorau greu problemau, gan gynnwys gwahanol amcanion neu gyrff ariannu, gwahanol reolau ynglŷn ag atebolrwydd a chyflwyno adroddiadau."

- **Chwarae Teg:** "Mae diffyg cyfathrebu clir â'r sector gwirfoddol wedi creu anawsterau ychwanegol o ran rhag-gynllunio. Mae angen i'r sector fod â rhan ganolog yn y penderfyniadau hyn."

- **Merched y Wawr:** "Byddem fel mudiad yn gwerthfawrogi cyfarfodydd lleol i hyrwyddo'r nawdd sydd ar gael gan Llywodraeth y Cynulliad. Mae'n well cael cyswllt uniongyrchol â'r cyllidwyr yn hytrach na gofyn i rywun fel Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fod yn asiant i ddelio a'r nawdd. Rhaid peidio â diystyru Canolbarth a Gogledd Cymru, mae'n hawdd gwneud hyn gan fod cymaint mwy o adnoddau yn y De."

- **Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched - Cymru:** "Mae FfCSyM-Cymru wedi cael problemau wrth geisio cyfathrebu'n ystyrlon ag adrannau yn y Cynulliad. Fel y dywedwyd o'r blaen, fel sefydliad sy'n ymdrin ag amrywiaeth fawr o faterion nid yw FfCSyM-Cymru'n cyd-fynd yn daclus ag unrhyw un adran ac o ganlyniad mae'r sefydliad o hyd yn cael ei esgeuluso a'i drosglwyddo o'r naill i'r llall. Os ydym yn sefydlu perthynas gydag adran, mae profiad yn ein dysgu mai perthynas fyrhoedlog fydd hi gan fod personél yn cael eu symud o gwmpas yn ddirybudd i'r sefydliadau y buont yn delio â hwy ac o ganlyniad mae'r cyfathrebu'n methu ac mae'r ffeiliau a'r gwaith papur yn mynd ar goll, gan arwain at golli gwybodaeth, cydberthynas ac arian yn y pen draw."

**<u>Argymhelliad 19</u>: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu ei gweithdrefnau staff i sicrhau bod dulliau cyfathrebu hygyrch rhwng adrannau perthnasol a'r trydydd sector, er enghraifft, gwneud yn siŵr bod gwybodaeth am gysylltiadau a chefndir yn cael ei rhannu pan fydd swyddogion perthnasol yn gadael neu'n dechrau swyddi newydd. Mae hyn yn berthnasol hefyd i CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn erbyn mis Ionawr 2009.**

## Cydraddoldeb

Daeth nifer o faterion i'n sylw yn ystod yr ymchwiliad y gellir eu diffinio'n gyffredinol fel materion yn ymwneud â chydraddoldeb. Mae'r rhain yn cynnwys ethnigrwydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, oed a chrefydd.

Clywsom ble gan **Stonewall Cymru**, yr unig gorff sy'n hyrwyddo anghenion pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol, i gael llwyfan ar gyfer trafod eu hanghenion penodol nhw â chyrff ariannu er mwyn prif ffrydio'r materion hyn yn y broses ymgeisio.

Clywsom fod rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn teimlo bod diffyg dealltwriaeth o'u hanghenion penodol yn aml pan oeddynt yn gwneud cais am arian; roedd hyn yn eu harwain i ymdrechu'n galetach i gyflwyno'u safbwyntiau, a gallai hynny weithiau gael ei gamddehongli fel dulliau rhy ymosodol a, chan hynny, roedd yn wrthgynhyrchiol.

- **Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan:** "Hoffem weld adnoddau dynol ac ariannol yn cael eu rhoi i gorff ymbarél er mwyn i hwnnw roi cymorth penodol i gyrff sy'n ymwneud â chydraddoldeb hiliol pan fyddant yn paratoi ac yn cwblhau ceisiadau am arian."

- **Cyngor Cymru i'r Deillion:** "Nid yw gwaith ar faterion cydraddoldeb a hawliau wedi cael lle priodol eto ym maes cyllid gan y Cynulliad. Drwy Gyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol y Cynulliad Cenedlaethol, gwnaed ceisiadau am gynllun grant agored a thryloyw ar gyfer gwaith yn y maes hwn. Hyd yma, cafwyd y cynllun ardderchog, Grwpiau dan Anfantais, ond mae hwn yn teithio drwy awdurdodau lleol felly nid yw'n diwallu'r holl anghenion."

- **Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched – Cymru –** yn eu tystiolaeth roeddynt yn cyfeirio at bryderon blaenorol am ariannu sefydliadau i ferched.

- "Hefyd mae pryderon eraill yn cynnwys arian i sefydliadau menywod, cyfathrebu effeithiol a chydymffurfio â 'chyfyngiadau neu amodau a osodir ar arian'. Yn 2004, y tro diwethaf y collodd FfCSyM-Cymru ei grant craidd, cododd y sefydliad ei bryderon am arian i sefydliadau menywod yn gyffredinol. Dywedodd y **Gweinidog dros Gyfiawnder**

**Cymdeithasol ac Adfywio** ar y pryd  bod FfCSyM-Cymru yn iawn i godi'r mater a chytunodd fod menywod yn gwneud yn wael o ran arian ac y byddai'n mynd i'r afael â'r mater hwn yn dilyn adolygiad o'r modd yr ariennir y sector gwirfoddol. "

- "Yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Mai 2004, wrth ateb cwestiwn gan **Helen Mary Jones AC** a oedd yn ceisio sicrwydd y caiff holl ffrydiau ariannu'r Cynulliad i'r sector gwirfoddol eu monitro o ran eu heffaith ar ddynion a merched a materion eraill yn ymwneud â chydraddoldeb. **Atebodd y Gweinidog** "Yr wyf yn falch o roi'r sicrwydd hwnnw ichi ac yr wyf yn ddiolchgar iawn ichi am godi'r materion hyn.  Cyfyd materion ynglŷn â sefydliadau y mae angen inni edrych arnynt a byddaf yn eu hystyried pan ddrafftiaf ganllawiau newydd ar ddosbarthu grantiau."

- "Hefyd cytunodd CGGC i godi mater rhyw yn ystod yr adolygiad ar ôl cyfaddef hefyd ei bod yn anodd ariannu sefydliadau menywod. Fodd bynnag, cafodd mater rhyw ei esgeuluso eto a thair blynedd yn ddiweddarach mae FfCSyM-Cymru wedi colli ei holl arian craidd ac ymddengys bod y sefyllfa sefydliadau menywod yn gyffredinol yn gwaethygu."

- "Er bod FfCSyM-Cymru yn falch o nodi y bydd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn 'archwilio materion 'cyllidebu ar sail rhyw' fel rhan o'r adolygiad hwn, mae pryderon o hyd nad yw arian i sefydliadau menywod yn hygyrch nac ar gael yn hawdd."

Mae'r adran yn ymwneud â monitro a gwerthuso yn ymdrin â chyllidebu ar sail rhyw, sydd hefyd yn fater yn ymwneud â chydraddoldeb.

**<u>Argymhelliad 20</u>: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud yn siŵr bod cyrff y trydydd  sector, gan gynnwys CGGC, yn ymwybodol o God Ymarfer Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cwynion.**

**<u>Argymhelliad 21</u>: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal sesiynau hyfforddi ar gyfer aelodau o staff sy'n gyfrifol am gynorthwyo a chyfathrebu â chyrff y trydydd sector.**

## Dwyieithrwydd

Clywsom fod rhai cyrff y trydydd  sector y mae'n well ganddynt weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael anawsterau weithiau wrth gyfathrebu â chyrff ariannu yn eu dewis iaith. Hefyd, mae angen rhagor o gymorth ymarferol ar grwpiau eraill i geisio gweithredu'n ddwyieithog. Mae rhai enghreifftiau isod.

- **Merched y Wawr:** "Fel mudiad sy'n gweithredu trwy gyfrwng yr Iaith Gymraeg rydym yn aml yn cael anhawster trafod ein hanghenion gyda rhywun sy'n medru'r iaith. Byddwn yn gofyn i'r pwyllgor sicrhau bod tegwch i'r Gymraeg a'r Saesneg a bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal yn y broses o geisio am nawdd."

- **Clybiau i Bobl Ifanc Cymru (CYP Wales) :** "O ystyried mai CYP Cymru yw'r corff sydd â'r nifer fwyaf ond un o gyfrangogwyr ifanc, mae'r rhan fwyaf o'i aelodau'n ddi-Gymraeg ond eto nid ydym yn derbyn unrhyw gyllid penodol i gysylltu'n ddwyieithog â'n haelodau, e.e. gwnes gais am £750 gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i gyfieithu a chynhyrchu fersiwn Cymraeg o'n prif daflen, a derbyniais £250. Dyma'r unig swm i CYP Cymru ei dderbyn gan Fwrdd yr Iaith **erioed**. Mae CYP Cymru wedi ymrwymo i bolisi dwyieithog llawn o fewn pedair blynedd. Mae cefnogaeth yn hanfodol."

Rydym yn teimlo'n gryf na ddylai grwpiau yn y trydydd sector wynebu unrhyw rwystr i wneud cais am arian drwy gyfrwng y Gymraeg. Ond, yn gyntaf, dylid asesu maint y broblem.

**<u>Argymhelliad 22</u>: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gasglu ystadegau'n ymwneud â nifer y ceisiadau grant sy'n cael eu prosesu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ei staff ei hun a chan asiantaethau allanol. Dylid gwneud yn siŵr bod digon o adnoddau'n cael eu dyrannu i fodloni'r galw a ragwelir; gan gynnwys recriwtio a hyfforddi staff. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn er mwyn sicrhau bod digon o arian yn cael ei ddyrannu yng nghylch cyllideb nesaf y Cynulliad Cenedlaethol.**

## Monitro a gwerthuso

Rydym o'r farn ei bod yn bwysig monitro a gwerthuso perfformiad cyrff y trydydd sector i wneud yn siŵr bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol. Mae canfyddiad, fodd bynnag, fod y broses yn rhy fiwrocrataidd ac nad yw, o reidrwydd, yn mesur y nodweddion cywir. Mae'n galonogol gweld bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn symud tuag at system monitro a gwerthuso sydd wedi'i seilio ar ganlyniadau.

Rydym yn teimlo y dylai'r gwaith monitro a gwerthuso fod yn gymesur â maint y corff a swm yr arian sy'n cael ei wario ac y dylai'r broses fod yn dryloyw. Dylai'r llythyrau a anfonir at y cyrff i roi gwybod iddynt a fu eu cais yn llwyddiannus roi rhesymau clir dros y penderfyniad. At hyn, dylai rhaglenni monitro a gwerthuso ymchwilio i unrhyw ragfarn systematig o ran y arian a ddyrennir i grwpiau sy'n darparu ar gyfer naill ai dynion neu ferched yn bennaf.

- **Cyngor Sgowtiaid Cymru: "**Mae'r Sgowtiaid yn croesawu'r dull hwn o gofnodi canlyniadau ariannu a monitro hynt prosiect a gymeradwyir. Yn ôl ein profiad ni, mae'r cymorth a'r cyngor a roddir yn ardderchog yn ystod y broses o gyflwyno adroddiadau ac wedyn.

- **Cyngor Cefn Gwlad Cymru:** "Yn draddodiadol, mae CCW wedi monitro'r grant wedi iddo gael ei dalu. Rydym yn cael ein cyfyngu'n aml gan yr angen i fesur canlyniadau corfforol neu'r costau, yn unol â'r cynllun prosiect; e.e. a yw'r seilwaith yn dal yn ei le yn hytrach nag a yw'n cael ei ddefnyddio'n rheolaidd, a faint o bobl all elwa o'r prosiect."

- **Fairbridge Cymru:** “Mewn rhai achosion, mae natur anhyblyg y cynlluniau grant wedi golygu y bu angen ymgymryd â gwaith ychwanegol i sicrhau bod digon o ddogfennau llofnodedig neu digon o flychau wedi’u ticio i osgoi gostyngiad yn y grant. Mae angen gwneud yn siŵr bod natur y grwpiau sy’n elwa yn cael ei ystyried wrth fonitro grant a chytundebau. Dylai’r gofynion i fonitro’r gwaith adlewyrchu’r symiau a ddyrennir a dylent gyfateb i allu’r corff sy’n eu derbyn. Ni ddylai’r gwaith monitro amharu ar allu’r corff dan sylw i ddarparu gwasanaeth.”

- **Royal National Institute for the Blind:** “Hyd yn hyn, mae’r broses monitro (yn enwedig monitro cydraddoldebau) wedi’i seilio ar brosesau ac wedi’i hasesu yn ôl maint y gwaith ac nid, o reidrwydd, yn ôl canlyniadau. Mae bwlch rhwng gweithredu a chanlyniad yn broblem yn y sector cyhoeddus drwyddo draw. Mae angen dyfeisio dulliau gwerthuso clir ar sail tystiolaeth a’u gweithredu ar y cyd gan y sector cyhoeddus a’r sector gwirfoddol. Dylid ystyried y gost ychwanegol o fonitro’n effeithiol wrth baratoi cyllidebau.”

**<u>Argymhelliad 23</u>: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu ei gweithdrefnau monitro a gwerthuso i wneud yn siŵr eu bod yn cyfateb yn well i faint y grant dan sylw a’u bod yn canolbwyntio mwy ar fesur canlyniadau yn hytrach na gweithgarwch. Dylid cwblhau’r adolygiad hwn a chyhoeddi canllawiau diwygiedig erbyn mis Rhagfyr 2009.**

**Cyllidebu ar sail rhyw**

Wrth lunio polisïau mae’n bosibl tybio bod cynlluniau’n effeithio ar bawb yn yr un modd; bod y cynlluniau hynny’n niwtral o ran gwahaniaethu rhwng dynion a merched. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, gall y cynlluniau hyn effeithio ar ddynion a merched mewn gwahanol ffyrdd.

Un ffordd o beidio ag anwybyddu gwahaniaethau sy’n seiliedig ar ryw wrth gymhwyso cyllidebau i bolisïau yw drwy gyllidebu ar sail rhyw. Nid oes unrhyw fwriad, drwy hyn, i greu gwahanol ffrwd ariannu ar gyfer dynion a merched ond, yn hytrach, proses ydyw o ddadansoddi sut y caiff arian ei ddyrannu er mwyn asesu effaith a goblygiadau’r polisïau ar ddynion a merched.

Er enghraifft, wrth gymhwyso polisi’n ymwneud â chludiant cyhoeddus di-dâl, wrth gyllidebu ar sail rhyw, byddai angen ystyried effaith ffactorau fel nifer y dynion a’r merched sydd â thrwydded yrru, y gwahaniaeth yn y duedd i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, neu’r gwahanol batrymau cymudo a amlygir yn y gwahaniaeth rhwng dynion a merched yn ystod eu bywydau gweithio.

Drwy hyn, mae’r broses gyllidebu’n ein galluogi i weld i ba raddau y mae gwahanol anghenion dynion, bechgyn a merched yn cael eu diwallu ac a yw amcanion polisi’n cael eu targedu’n briodol.

Fe'n siomwyd bod cyn lleied o ymatebwyr wedi rhoi sylwadau ar y mater hwn.

- **Cyngor Sgowtiaid Cymru:** "Ni ddylai mudiadau gwirfoddol heddiw wahaniaethu rhwng bechgyn a merched. Mae'r Sgowtiaid yn croesawu bechgyn a merched o chwech oed ymlaen a chaiff bechgyn a merched gymorth i ddatblygu eu potensial corfforol, deallusol, cymdeithasol ac ysbrydol yn llawn. Hefyd, mae merched a dynion yn arwain ac maent yn dysgu amrywiaeth o sgiliau drwy gyfrwng y cynllun hyfforddi oedolion."

- **Chwarae Teg:** "Rydym yn croesawu'r ffaith bod cyllidebu ar sail rhyw'n cael ei gynnwys yn yr ymchwiliad. Wrth ddyrannu unrhyw gyllid, awgrymwn y dylid gofyn am dystiolaeth o fanteision gwahaniaethol yn y cais a'r canlyniadau (wrth asesu'r manteision sylfaenol). Er enghraifft, dyrannodd yr Adran Menter, Arloesedd a Rhwydweithiau £19,611,622 i'r sector gwirfoddol yng Nghymru yn 2005/6 (papur CGGC i'r pwyllgor). Nid yw'n hysbys faint o ferched fanteisiodd ar yr arian na pha newidiadau ansoddol a wnaed i'w bywydau o ganlyniad i'r gyllideb hon."

- **Cyngor Chwaraeon Cymru:** "Ceir gwahaniaeth hefyd o ran rhyw: mae 15% o ddynion Cymru yn perthyn i glwb, o'i gymharu â dim ond 9% o'r merched. Fodd bynnag, mae'r bwlch hwn rhwng y ddau ryw'n amrywio'n helaeth yn y gwahanol awdurdodau lleol. Yn Sir Gaerfyrddin, er enghraifft, ceir bwlch o ddim ond 2 bwynt canran rhwng y ddau rhyw ac yma mae'r gyfradd uchaf yng Nghymru o ferched sy'n aelodau o glwb (14%). Yn Nhor-faen, ble ceir lefel uwch na'r cyfartaledd o aelodaeth gyffredinol hefyd, mae'r bwlch rhwng y ddau ryw'n llawer mwy: mae 20% o'r dynion yn aelodau o glwb chwaraeon o'i gymharu ag 8% o'r merched."

  "O'i gymharu â data arolwg Cyngor Chwaraeon Cymru, mae aelodaeth clybiau CRhC yn dangos gwahaniaeth rhwng y ddau ryw. Wrth wahanu cyfanswm aelodaeth y clybiau CRhC, gwelir bod mwyafrif aelodau'r clwb yn ddynion hŷn (51%), ac yna 30% o'r aelodau'n fechgyn iau. Dim ond 19% o ferched a genethod sy'n aelodau o glwb chwaraeon CRhC (11% yn ferched hŷn ac 8% yn enethod iau). Mae proffil rhyw clybiau chwaraeon y CRhC yn wrywaidd yn bennaf."

**Argymhelliad 24: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol a chyrff ariannu eraill gynnwys 'cyllidebu ar sail rhyw' fel mater penodol yn eu cod ymarfer ac yn eu gweithdrefnau monitro. Dylid cwblhau hyn erbyn mis Mawrth 2009 .**

## Marchnata a brandio

Nid yw bob amser yn amlwg o ble daw arian ar gyfer y trydydd sector. Gall hyn arwain at gamsyniad ynglŷn â phwy sy'n ariannu beth - a pham. Gwelsom

nad oedd hyd yn oed y rheini sy'n gweithio yn y sector bob amser yn sylweddoli o ble roedd eu grant wedi dod.

Yn ogystal â sicrhau bod gwybodaeth am ffynonellau ariannu ar gael i'r rheini sydd am ei chael, a drafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, teimlwn y byddai o gymorth pe bai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnal adolygiad o farchnata a brandio cyllid ar gyfer y trydydd sector. Diben hyn fyddai sicrhau bod pobl yn gyffredinol yn ymwybodol o'r cyllid y mae'r sector hwn yn ei gael gan y llywodraeth ganolog, llywodraeth leol, yr Undeb Ewropeaidd a chyrff ariannu eraill a byddai hefyd yn hysbysebu'r manteision sydd ynghlwm wrth yr arian hwn.

**Argymhelliad 25: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r broses o farchnata a brandio ffynonellau ariannu'r trydydd sector gan gynhyrchu strategaeth i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ffynhonnell yr arian, sut y caiff ei ddyrannu a'r canlyniadau. Dylid cynhyrchu'r strategaeth hon erbyn mis Ionawr 2010.**

## 7. Argymhellion

**<u>Argymhelliad 1</u>:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill drin y trydydd sector fel partner strategol wrth gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau cyhoeddus.

**<u>Argymhelliad 2</u>:** Dylai Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru adolygu ei weithdrefnau presennol ar gyfer monitro perfformiad y Cynghorau Gwirfoddol Sirol gan gynnwys mesurau meintiol ac ansoddol. Yna dylai Cyngor Gweithredu Gwirofoddol Cymru adolygu perfformiad y Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn erbyn y meini prawf hyn ar ffurf rhaglen dreigl. Dylid cwblhau'r adolygiad erbyn mis Ebrill 2010.

**<u>Argymhelliad 3</u>:** Dylai'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol adolygu eu trefniadau ar gyfer hysbysebu eu gwasanaethau er mwyn datblygu cysylltiadau â chyrff llai a rhoi cymorth ymarferol; er enghraifft, eu helpu i lenwi ffurflenni cais. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn erbyn mis Mawrth 2009.

**<u>Argymhelliad 4</u>:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru noddi pedwar cynllun peilot mewn ardaloedd gwledig a threfol, gan ddefnyddio Cynghorau Gwirfoddol Sirol o bosibl, i roi hyfforddiant a chymorth i gyrff llai i fod yn fwy hunangynhaliol. Dylid annog y sector preifat i roi cymorth, naill ai drwy gynnig nawdd neu drwy fenthyg staff sydd â sgiliau arbennig ar secondiad am gyfnodau byr. Dylai'r ddau gynllun peilot cyntaf fod yn weithredol erbyn mis Mawrth 2009.

**<u>Argymhellion 5</u>:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i ddatblygu a chynnal porth canolog sy'n rhoi gwybodaeth am gyllid. Dylai hyn gynnwys cronfa ddata o ffrydiau ariannu y gellir eu chwilio; cyngor ynghylch gwneud cais am grantiau a sut i fod yn fwy hunangynhaliol drwy gael hyd i arian o ffynonellau gwahanol. Dylid hysbysebu'r pyrth hyn yn dda, dylent fod ar y we a dylent fod â lincs at awdurdodau lleol, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a chyrff yn y sector cyhoeddus. Dylai'r porth fod yn weithredol erbyn mis Mawrth 2009.

**<u>Argymhelliad 6</u>:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu ei meini prawf ariannu er mwyn cynyddu'r arian craidd ar gyfer prosiectau sydd wedi'u sefydlu eisoes gan hefyd gydnabod bod angen hybu arloesedd. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn erbyn mis Rhagfyr 2008.

**<u>Argymhelliad 7</u>:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gadarnhau a hybu'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru fel cyfrwng priodol i reoli a chodi gwerth asedau segur ac asedau nad oes neb yn eu hawlio, a chronfeydd segur o wahanol ffynonellau. Diben hyn fyddai i'r Sefydliad greu cronfeydd gwaddol i greu ffynhonnell ariannu gynaliadwy, hirdymor, annibynnol ar gyfer y trydydd sector, a byddai'r Sefydliad yn ychwanegu gwerth drwy gyfrwng cronfeydd y sector preifat (busnesau, unigolion ac ymddiriedolaethau) i gynyddu'r buddsoddiad hwn mewn grwpiau cymunedol, prosiectau ac elusennau lleol ar hyd a lled Cymru.

**<u>Argymhelliad 8</u>:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fonitro i ba raddau y mae'n arferol dyrannu cyllid am gyfnod o dair blynedd, yn unol â'r cod ymarfer ar gyfer ariannu, a nodi mathau o brosiectau y byddai'n fwy priodol dyrannu cyllid iddynt am gyfnodau hirach. Dylid cyhoeddi adroddiad am y broses monitro hon fis Mawrth 2009.

**<u>Argymhelliad 9</u>:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r gwahanol ffrydiau ariannu sydd ar gael naill ai'n uniongyrchol neu drwy ei hasiantaethau, i weld a fyddai'n bosibl eu cyfuno. Dylid hefyd asesu a yw'r cydbwysedd rhwng arian refeniw ac arian cyfalaf yn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau. Dylid cwblhau'r adolygiad erbyn mis Mawrth 2009.

**<u>Argymhelliad 10</u>:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i adolygu'r dulliau o ddarparu arian i gyrff sy'n cynnig gwasanaeth i Gymru gyfan, er mwyn dileu'r angen i wneud nifer o geisiadau gwahanol am grantiau. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn erbyn mis Rhagfyr 2009.

**<u>Argymhelliad 11</u>:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu ei god ymarfer ar gyfer ariannu, er mwyn i gyrff yn y trydydd sector fedru cynllunio'u gwaith yn fwy strategol. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn erbyn mis Rhagfyr 2009.

**<u>Argymhelliad 12</u>:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i gynnal adolygiad o godau ymarfer presennol y sector cyhoeddus ar gyfer ariannu'r trydydd sector er mwyn nodi a rhannu arfer da erbyn mis Mawrth 2009.

**<u>Argymhelliad 13</u>:** Dylai'r holl gyrff perthnasol yn y sector cyhoeddus (gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a chyrff ariannu statudol eraill) ddatblygu a gweithredu codau ymarfer ar gyfer ariannu'r trydydd sector (dyrannu grantiau a chaffael gwasanaethau) erbyn mis Rhagfyr 2009. Dylai'r rhain sicrhau bod gweithdrefnau caffael yn caniatáu i'r trydydd sector gystadlu â'r sectorau cyhoeddus a phreifat am gytundebau a dylent hefyd ystyried adennill costau llawn. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau a monitro'r broses o roi'r argymhelliad hwn ar waith.

**<u>Argymhelliad 14</u>:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i adolygu:

- Yr holl ffurflenni cais, i wneud yn siŵr bod yr iaith yn glir ac yn hawdd ei deall, ac yn defnyddio cyn lleied o jargon â phosibl.

- Y gweithdrefnau ymgeisio, er mwyn addasu'r broses yn ôl maint y grant dan sylw, a hefyd er mwyn lleihau biwrocratiaeth drwy ddefnyddio gwybodaeth a gyflwynwyd eisoes. Er enghraifft, dylai cais i adnewyddu grant gynnwys dim ond y manylion hynny sydd wedi newid ers y cais gwreiddiol.

- Yr holl ffurflenni cais i wneud yn siŵr eu bod yn cynnwys gwybodaeth am y modd y caiff ceisiadau eu prosesu; er enghraifft, meini prawf asesu, pryd y caiff penderfyniad ei wneud a siart lif syml yn dangos yr holl broses ymgeisio. Mae'n bwysig fod y broses ymgeisio'n dryloyw a bod cyfle i bobl roi sylwadau arni.

Dylid cwblhau'r adolygiadau hyn erbyn mis Mawrth 2009.

**Argymhelliad 15:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd am y cyllid sydd ar gael gan yr Undeb Ewropeaidd a sut y caiff ei ddyrannu. Dylid dosbarthu'r wybodaeth drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a'r porth gwybodaeth ar y we. Dylid cyhoeddi'r wybodaeth hon bob chwarter, gan ddechrau fis Awst 2008.

**Argymhelliad 16:** Dylai Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru sefydlu canolfan gynghori i gynorthwyo cyrff y trydydd sector gyda'u ceisiadau am gyllid gan yr Undeb Ewropeaidd. Dylid sefydlu'r ganolfan hon erbyn mis Mawrth 2009.

**Argymhelliad 17:** Ar ôl sefydlu'r Cynllun Cyfrifon Segur, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud yn siŵr bod Cymru yn cael cyfran briodol o'r cyllid a bod swm sylweddol yn cael ei gyfeirio at y trydydd sector.

**Argymhelliad 18:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal trafodaethau â'r Gronfa Loteri Fawr a dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol i archwilio sut y gellid symleiddio gweithdrefnau dosbarthu arian a rhannu arfer da. Dylid cynnal y trafodaethau hyn erbyn mis Rhagfyr 2008.

**Argymhelliad 19:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu ei gweithdrefnau staff i sicrhau bod dulliau cyfathrebu hygyrch rhwng adrannau perthnasol a'r trydydd sector, er enghraifft, gwneud yn siŵr bod gwybodaeth am gysylltiadau a chefndir yn cael ei rhannu pan fydd swyddogion perthnasol yn gadael neu'n dechrau swyddi newydd. Mae hyn yn berthnasol hefyd i CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn erbyn mis Ionawr 2009.

**Argymhelliad 20:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud yn siŵr bod cyrff y trydydd sector, gan gynnwys CGGC, yn ymwybodol o God Ymarfer Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cwynion.

**Argymhelliad 21:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal sesiynau hyfforddi ar gyfer aelodau o staff sy'n gyfrifol am gynorthwyo a chyfathrebu â chyrff y trydydd sector.

**Argymhelliad 22:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gasglu ystadegau'n ymwneud â nifer y ceisiadau grant sy'n cael eu prosesu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ei staff ei hun a chan asiantaethau allanol. Dylid gwneud yn siŵr bod digon o adnoddau'n cael eu dyrannu i fodloni'r galw a ragwelir; gan gynnwys recriwtio a hyfforddi staff. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn er mwyn

sicrhau bod digon o arian yn cael ei ddyrannu yng nghylch cyllideb nesaf y Cynulliad Cenedlaethol.

**<u>Argymhelliad 23</u>:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu ei gweithdrefnau monitro a gwerthuso i wneud yn siŵr eu bod yn cyfateb yn well i faint y grant dan sylw a'u bod yn canolbwyntio mwy ar fesur canlyniadau yn hytrach na gweithgarwch. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn a chyhoeddi canllawiau diwygiedig erbyn mis Rhagfyr 2009.

**<u>Argymhelliad 24</u>:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol a chyrff ariannu eraill gynnwys 'cyllidebu ar sail rhyw' fel mater penodol yn eu cod ymarfer ac yn eu gweithdrefnau monitro. Dylid cwblhau hyn erbyn mis Mawrth 2009.

**<u>Argymhelliad 25</u>:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r broses o farchnata a brandio ffynonellau ariannu'r trydydd sector gan gynhyrchu strategaeth i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ffynhonnell yr arian, sut y caiff ei ddyrannu a'r canlyniadau. Dylid cynhyrchu'r strategaeth hon erbyn mis Ionawr 2010.

**Atodiad 1**

## Cyrff ac unigolion a roddodd dystiolaeth yn bersonol i'r Pwyllgor

### 10 Hydref 2007

| | |
|---|---|
| • Dr Brian Gibbons, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol<br>• Leighton Andrews, y Dirprwy Weinidog dros Adfywio<br>• Dr Caroline Turner, Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Cymunedau<br>• Peter Owen, Pennaeth Tîm y Sector Gwirfoddol | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| • Graham Benfield, Prif Weithredwr<br>• Andrea Powell, Cydgysylltydd Cyngor ar Gyllido | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |

### 24 Hydref 2007

| | |
|---|---|
| • Tegwen Morris, Cyfarwyddwr Cenedlaethol<br>• Mary Price, Llywydd Cenedlaethol | Merched y Wawr |
| • Dave Evans, Prif Weithredwr<br>• Joff Carroll, Cyfarwyddwr Cyllid | Clybiau i Bobl Ifanc |
| • Sarah Stone, Pennaeth Materion Cyhoeddus, Age Concern Wales<br>• Rachael Rowlands, Cyfarwyddwr Age Concern Morgannwg<br>• Jane Reeks, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Age Concern Wales | Age Concern Cymru |

### 7 Tachwedd 2007

| | |
|---|---|
| • Huw Jones, Prif Weithredwr<br>• Philip Carling, Cadeirydd | Cyngor Chwaraeon Cymru |
| • Peter Tyndall, Prif Weithredwr<br>• Yr Athro Dai Smith, Cadeirydd | Cyngor Celfyddydau Cymru |

| | |
|---|---|
| • Rhian Connick, Pennaeth Ffederasiwn Sefydliad y Merched Cymru<br>• Marylyn Haines Evans, Cadeirydd Pwyllgor Ffederasiwn Cymru | Ffederasiwn Sefydliad y Merched |

**14 Tachwedd 2007**

| | |
|---|---|
| • Rhodri Glyn Thomas, y Gweinidog Treftadaeth<br>• John Howells, Cyfarwyddwr – Diwylliant<br>• Jonathan Jones, Cyfarwyddwr Twristiaeth a Marchnata<br>• Jeff Jenkins, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol CADW<br>• Sian Andrews, Uned Fusnes – Diwylliant | Llywodraeth Cynulliad Cymru |

**21 Tachwedd 2007**

| | |
|---|---|
| • Alun Gruffudd, Swyddog Materion Cyhoeddus<br>• Alan Chesters, Rheolwr Gwasanaethau Cynghori | Cyngor ar Bopeth Cymru |
| • Joy Kent, Cyfarwyddwr Cymorth<br>• Barry Gallagher, Cadeirydd Cymorth a Phrif Weithredwr Drive<br>• Adrian Roper, Aelod o Gymorth a Phrif Weithredwr Cartrefi Cymru<br>• Frances Beecher, Prif Weithredwr Llamau a Chyn Gadeirydd Cymorth Cymru | Cymorth Cymru |
| • Steve Thomas, Prif Weithredwr<br>• Daniel Hurford, Pennaeth Dros Dro Polisi (Gwella a Llywodraethu) | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

**12 Rhagfyr 2007**

| | |
|---|---|
| • Peter Short, Swyddog Rhanbarthol | TUC Cymru |
| • Dan Clayton-Jones, Cadeirydd Pwyllgor Cymru<br>• Jennifer Stewart, Rheolwr yng Nghymru | Cronfa Dreftadaeth y Loteri |
| • Huw Vaughan Thomas, Cadeirydd Pwyllgor Cymru<br>• Ceri Doyle, Cyfarwyddwr dros Gymru | Y Gronfa Loteri Fawr |

**23 Ionawr 2008**

| | |
|---|---|
| • Jennifer Render, Cyfarwyddwr<br>• Simon James, Cyfarwyddwr Cynorthwyol | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent |
| • Sue Leonard, Cyfarwyddwr/Uwch Swyddog Hyfforddiant<br>• Lorna Unwin, Swyddog Datblygu Cyllid | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro |
| • Shannon Robinson, Prif Weithredwr | Menter Gymunedol Cymru |

**6 Chwefror 2008**

| | |
|---|---|
| • Liz Morgan, Cyfarwyddwr | Stonewall Cymru |
| • Maria Constanza Mesa, Cyfarwyddwr Dros Dro<br>• Manjit Mahil, Swyddog Gwybodaeth a Chyfathrebu | Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon |
| • Roy Norris, Rheolwr Cymru | Sefydliad Codi Arian Cymru |

**16 Ebrill**

| | |
|---|---|
| • Kim Brook, Cadeirydd<br>• Liza Kellet, Prif Weithredwr | Y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru |

**Atodiad 2**

**Rhestr o bapurau'r Pwyllgor**

| **Dyddiad** | **Enw'r Corff** | **Cyfeirnod y papur** | **Cyfeirnod y paragraff yn y trawsgrifiad** |
|---|---|---|---|
| 10 Hydref 2007 | Llywodraeth Cynulliad Cymru, Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a'r Dirprwy Weinidog dros Adfywio | CC(3)-03-07 (p1) | 7-96 |
| 10 Hydref 2007 | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | CC(3)-03-07 (p2) | 97-172 |
| 24 Hydref 2007 | Merched y Wawr | CC(3)-04-07 (p1) | 3-86 |
| 24 Hydref 2007 | Clybiau i Bobl Ifanc | CC(3)-04-07 (p2) | 87-176 |
| 24 Hydref 2007 | Age Concern Cymru | CC(3)-04-07 (p3) | 177-233 |
| 7 Tachwedd 2007 | Cyngor Chwaraeon Cymru | CC(3)-05-07 (p1) | 3-73 |
| 7 Tachwedd 2007 | Cyngor Celfyddydau Cymru | CC(3)-05-07 (p2) | 75-144 |
| 7 Tachwedd 2007 | Ffederasiwn Sefydliad y Merched Cymru | CC(3)-05-07 (p3) | 146-206 |
| 14 Tachwedd 2007 | Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Gweinidog Treftadaeth. | CC(3)-06-07 (p1) | 3-69 |
| 21 Tachwedd 2007 | Cyngor ar Bopeth Cymru. Papur ysgrifenedig | CC(3)-07-07 (p1) | 4-54 |
| 21 Tachwedd 2007 | Cymorth Cymru | CC(3)-07-07 (p2) | 55-111 |
| 21 Tachwedd 2007 | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | CC(3)-07-07 (p3) | 112-160 |
| 12 Rhagfyr 2007 | TUC Cymru | CC(3)-09-07 (p1) | 2-48 |
| 12 Rhagfyr 2007 | Cronfa Dreftadaeth y Loteri | CC(3)-09-07 (p2) | 49-109 |
| 12 Rhagfyr 2007 | Y Gronfa Loteri Fawr | CC(3)-09-07 (p3) | 110-157 |
| 23 Ionawr 2008 | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent. Papur | CC(3)-01-08 (p1) | 5-57 |
| 23 Ionawr 2008 | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro. | CC(3)-01-08 (p2) | 64-148 |
| 23 Ionawr 2008 | Menter Gymuned Cymru | CC(3)-01-08 (p3) | 149-187 |
| 6 Chwefror 2008 | Stonewall Cymru | CC(3)-02-08 (p1) | 5-39 |
| 6 Chwefror 2008 | Sector Gwirfoddol Pobl Dduon | CC(3)-02-08 (p2) | 40-111 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6 Chwefror 2008 | Sefydliad Codi Arian Cymru | CC(3)-02-08 (p3) | 112-163 |
| 16 Ebrill 2008 | Y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru | CC(3)-06-08 (p4) | 134-198 |

**Mae copïau o’r holl bapurau a’r trawsgrifiadau ar gael os ewch i:**
[Cynulliad | Busnes | Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant]

**Atodiad 3**

## Cyrff a ymatebodd i'r cais am dystiolaeth ysgrifenedig

Age Concern Abertawe
Age Concern Castell-nedd Port Talbot
Chwarae Teg
Clwb Achub Bywyd Rest Bay
Clybiau Plant Cymru
Croesffyrdd – Gofalu am Ofalwyr
Croesffyrdd Brycheiniog a Maesyfed
CWVYS – Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol
Cyfanfyd
Cymdeithas er Atal Camddefnyddio Toddyddion a Sylweddau Anweddol
Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO)
Cyngor ar Bopeth Tor-faen
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Cyngor Cymru i'r Deillion
Cyngor Sgowtiaid Cymru
Cyswllt Amgylchedd Cymru
David Salter
Fairbridge Cymru
Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru
Girlguiding Cymru
Groundwork Wales
Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd
KPC Youth ym Mynyddcynffig, Pîl a Chorneli
Llamau
NIACE Dysgu Cymru
Rhwydwaith Amgylchedd Pobl Dduon
RNIB
Sefydliad Prydeinig y Galon
Shelter Cymru
SOLAS – Cymru
Trafnidiaeth Gymunedol Gororau Cymru
Y Rhwydwaith Argyfwng Ffermio
Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru
Ymddiriedolaeth y Tywysog Cymru

Sylwch nad yw'r rhestr uchod yn cynnwys unrhyw gyrff nac unigolion a nododd nad ydynt am i'w manylion gael eu cyhoeddi.